# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Chwefror 2016 Rhifyn 463 50c


# Dyfodol Disglair yn y Dyffryn



## Agor Meithrinfa Newydd

Mae cryn brysurdeb wedi bod yn amgylchynnu Plas Ffrancon yn ddiweddar, gyda newidiadau amlwg i'r brif fynedfa a'r llawr cyntaf. Y rheswm am hyn yw bodolaeth meithrinfa newydd sbon danlli, o dan adain y Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg, o fewn y ganolfan.

Yma mae cyfle i 30 o blant o ddyflwydd oed i fwynhau amyrywiol weithgareddau addysgol a chymdeithasol dan ofal carfan frwdfrydig o staff. Cynhelir 2 sesiwn, y bore rhwng 9 a 11.30, a'r prynhawn rhwng 12.15 a 2.45. Mae sesiwn y bore eisoes yn llawn!

Meddai'r rheolwraig, Juliet Davies " Rydan ni'n gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yma ac yn rhan o'r Cynllun Cyn-ysgol Iach." Mae croeso cynnes felly i blant y Dyffryn mewn awyrgylch lliwgar a chyfforddus, heb sôn am y ffaith fod holl adnoddau chwaraeon y ganolfan ei hun ar stepen eu drws. Gellir cysylltu â Julie ar 07815-085-323. Pob lwc i bawb sy'n rhan o'r fenter newydd!

## Addysg Werdd yn y Dyffryn

Ddiwedd Ionawr fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymha gategori y mae pob un ysgol drwy Gymru. Gosodir pob ysgol mewn un o bedwar categori o ran lliw - yn amrywio o goch ar gyfer ysgolion sydd angen llawer o gefnogaeth, drwy oren, melyn, a gwyrdd ar gyfer yr ysgolion hynny sydd angen y lleiaf o gefnogaeth. Yn ol y diffiniad mae'r ysgolion yma'n ysgolion sydd yn llwyddo'n dda iawn yn barod.

Y newyddion ardderchog yw fod 5 ysgol o fewn ffiniau'r dyffryn wedi cael eu dynodi'n ysgolion gwyrdd - Abercaseg, Llanllechid, Penybryn, Tregarth a Dyffryn Ogwen. Dim ond 16 ysgol werdd sydd yna drwy Wynedd – ac mae 5 ohonynt yn y dyffryn. Sefyllfa ryfeddol! Ar ben hyn, mae ysgolion Bodfeurig, Rhiwlas a Llandygai hefyd yn ysgolion melyn - yr ail gategori gorau.

Mae hon yn sefyllfa arbennig iawn, ac mewn gwirionedd, yn sefyllfa unigryw mewn unrhyw ardal ar draws Gogledd Cymru, gan fod pob ysgol yn y dyffryn yn cael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru yn ysgol o safon uchel.

Mae hyn yn deyrnged i waith caled holl staff yr ysgolion yma, ac i'r holl ddisgyblion sy'n gweithio'n galed.

Dylai'r ardal gyfan ymfalchio yn y llwyddiant yma. Gyda chanlyniadau fel hyn, mae'n anodd deall pam fod unrhyw deulu hyd yn oed yn ystyried anfon eu plant i ysgolion tu allan i'r dyffryn!

## CÔR Y DYFFRYN

**Bydd ymarferion yn ailgychwyn ar nos Sul, Mawrth 6, am 6.15.p.m. yn festri Capel Jerusalem. Y bwriad yw cymryd rhan yng Nghymanfa flynyddol Presbyteriaid Bangor/Ogwen, a gynhelir eleni yn Jerusalem ar Fai 22.**

**Croeso cynnes iawn i aelodau hen a newydd!**

# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL

**Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com
**Ieuan Wyn**
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk
**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com
**Dewi Llewelyn Siôn**
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk
**Fiona Cadwaladr Owen**
☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk
**Siân Esmor Rees**
☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com
**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

## SWYDDOGION

**Cadeirydd**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk
**Trefnydd Hysbysebion**
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com
**Ysgrifennydd**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com
**Trysorydd**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ
☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk
**Y Llais Drwy'r Post**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
☎ 600184
post@llaisogwan.com

Ariennir yn Rhannol gan Llywodraeth Cymru

## DYDDIADUR Y DYFFRYN

21 MAWRTH

CHWEFROR 2016

**19** Cyfarfod Blynyddol Cangen Dyffryn Ogwen Plaid Cymru. Cefnfaes am 7.00.
**22** Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00yp.
**25** Cinio Garawys. Eglwys Santes Fair, Tregarth. 12.00 – 1.30. (hefyd Mawrth 3; 10; 17.)
**25** Merched y Wawr Bethesda. Dathlu Gwyl Ddewi. Gwilym Bowen. Caffi Coed y Brenin.
**27** Lawnsiad Ynni Ogwen – Agor cynllun cyfraniadau cymunedol yn Hydro Afon Ogwen.
**28** Cyngerdd Gŵyl Ddewi. Neuadd Ogwen am 3.00yp.

MAWRTH 2016

**03** Sefydliad y Merched Carneddi. Dathlu G. Ddewi. Pedwarawd Y.D. O. Cefnfaes 7.00.
**05** Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**07** Merched y Wawr Tregarth. Festri Shiloh am 7.00
**10** Cymdeithas Jerusalem. Dathlu Gwyl Ddewi. Pedwarawd y Fenai. Y festri am 7.00.
**12** Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**12** Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.
**14** Cymd. Hanes. D. Ogwen. Darlith Goffa Rhiannon Rowlands. Festri Jerusalem am 7.00.
**19** Bore Coffi Cronfa Goffa Tracey Smith. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
**22** Cangen Plaid Cymru D. Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

EBRILL 2016

11 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.
20 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 5.00 – 8.00yh.

**Mae**
**Llais Ogwan**
**ar werth**
**yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:**

Spar, Bethesda,
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub

## GOLYGYDD Y MIS

Golygwyd y mis hwn gan
**Lowri Roberts a Walter Williams**

Golygyddion mis Mawrth fydd
**Dewi A. Morgan**, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, LL57 3DT (01248) 602440.
dewimorgan@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **Dydd Mercher, 2 Mawrth** os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 17 Mawrth**, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

COFIWCH GEFNOGI EIN HYSBYSEBWYR.

## ARCHEBU LLAIS OGWAN DRWY'R POST




| | |
|---|---|
| Gwledydd Prydain | £20 |
| Ewrop | £30 |
| Gweddill y Byd | £40 |

Owen G. Jones,
1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN

☎ post@llaisogwan.com
01248 600184

## CLWB CYFEILLION LLAIS OGWAN

GWOBRAU IONAWR

**£30.00** (155) Bess Buckley, Maes Ogwen, Tregarth.
**£20.00** (98) Godfrey Northam, Rachub.
**£10.00** (97) Walter Williams, Erw Las, Bethesda.
**£5.00** (177) Selwyn Jones, Bron Arfon, Rachub.

## LLAIS OGWAN AR CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor:

☎ 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd ☎ 601415**
**Neville Hughes ☎ 600853**


## LLAIS OGWAN

**Cyhoeddir gan**
**Bwyllgor Llais Ogwan**
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan
Smala, Clynnogfawr
www.smala.net
☎ 01286 660017
www.smala.net
post@smala.net

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor, Penygroes,
Gwynedd LL54 6DB
☎ 01286 881911


## Rhoddion i'r Llais

**£4.50** Di-enw Bethesda.
**£20.00** Mr. a Mrs. Llew. Jones, Cae Gwigin, Talybont.
**£20.00** Er cof annwyl am Gwilym Bullock, 11 Arafon, Mynydd Llandygai, oddi wrth Elna, Sharon, a Lynne a'r teulu.
**£15.00** Er cof am Einion Owen, Tan y Garth, Rachub.
**£10.00** Er cof annwyl am Brian Parry, 45 Abercaseg, Bethesda, oddi wrth Joan a'r teulu.
**£10.00** Dafydd Evans, Penisarwaun.
**£10.00** Mr. Ken Jones, Edgeware, Llundain.
**£30.00** Mr. David Nicholas, Llandrillo yn Rhos.
**£4.50** Mrs. Blodwen Cavanagh, Maes y Garnedd, Bethesda.
**£10.00** Di-enw.
**£20.00** Hefin a Llifon Jones, er cof annwyl am Eirian Mary Jones, 17, Hen Barc, a fuasai'n 60 oed ar 15 Chwefror.
**£1.50** Di-enw.
Diolch yn fawr.

Nid yw pwyllgor *Llais Ogwan* na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

# GAIR NEU DDAU

## GWEDDÏO YN ERBYN

Nid yw'n syndod i mi fod prif weinidogion ac arlywyddion yn medru gwneud camgymeriadau mawr a phenderfyniadau annoeth. Dyna duedd pobl ffaeledig a phechadurus, wedi'r cyfan. Y syndod yw bod pobl a ddaeth i'r fath swyddi yn medru dweud pethau mor ddychrynllyd o hurt.

Ni chafodd Donald Trump (hyd yma!) ei ethol yn Arlywydd yr Unol Daleithiau, ond dyna'i uchelgais. Pwy feddyliai y gallai ymgeisydd difrifol am yr Arlywyddiaeth fod mor hurt â dweud fod angen gwahardd pob Moslem rhag dod i'r wlad? Sut all neb Gredu y gallai hynny fod o help i wella'r berthynas rhwng pobl o wahanol draddodiadau a chefndiroedd?

Beth bynnag ddaw o Mr Trump, mae David Cameron eisoes yn Brif Weinidog. Mae ganddo swydd anodd, na fynnwn i mohoni am bensiwn. Mae ganddo benderfyniadau cymhleth i'w gwneud. Mae wedi gwneud sawl camgymeriad a phenderfyniad Anghywir. Wrth gwrs hynny: pechadur ffaeledig ydi o. Ond dydi o ddim yn ddwl. A dyna sy'n gwneud i mi anobeithio o'i glywed yn awgrymu y gall gwragedd a mamau Moslemaidd gael eu hanfon o wledydd Prydain os na fyddan nhw'n dysgu Saesneg. Yn ôl Mr Cameron, mae plant i famau sy'n methu siarad Saesneg mewn perygl o gael eu Troi'n derfysgwyr! Sut all dyn sy'n ddigon doeth a gwybodus i fod yn Brif Weinidog ddweud peth mor ynfyd a pheryglus?

Mae mwy nag un rheswm pam fod pobl yn troi at derfysgaeth. Mae Mr Cameron yn dewis peidio â cheisio deall y rhesymau hynny, beth bynnag a pha mor wallus bynnag ydynt. Ond onid yw'r awgrym hwn ganddo'n cynnig rheswm arall i bobl droi yn erbyn y Wladwriaeth Brydeinig a hyd yn oed gael eu denu at derfysgaeth. Sut mae disgwyl i fechgyn a merched ifainc ymateb os bydd y Wladwriaeth yn anfon eu mamau a'u neiniau nôl i wledydd peryglus am na fedran nhw siarad Saesneg? Byddai llawer o'r gwragedd hynny'n wynebu tlodi, digartrefedd, rhyfel, camdriniaeth a thrais, a'r cyfan am eu bod yn euog o'r pechod anfaddeuol o beidio â dysgu'r Saesneg. Ydi Mr Cameron wir mor ffôl â chredu na fyddai hynny'n debygol o gythruddo eu plant a'u hwyrion? Pa syndod pe bai cenhedlaeth gyfan yn dod i gasáu gwladwriaeth ffiaidd a fyddai wedi gweithredu felly?

Dylai Cristnogion weddïo 'dros frenhinoedd a phawb sydd mewn awdurdod, inni gael byw yn dawel a heddychlon, yn llawn duwioldeb a gwedduster' (1 Timotheus 2:2). Wrth wneud hynny, gwyddom mai gweddïo a wnawn dros bobl ffaeledig sydd angen Doethineb a chymorth Duw i lywodraethu'n gyfiawn er lles eu pobl. Ond weithiau, mae angen gweddïo yn erbyn llywodraethwyr os yw eu bwriadau'n amlwg ddrwg a Pheryglus. A dyma un o'r achlysuron hynny. Gweddïwn na ddaw Mr Trump a'i bolisïau ffiaidd i'r Tŷ Gwyn. Gweddïwn na chaiff Mr Cameron ei ffordd, ac na ddaw ei syniadau peryglus yn bolisi llywodraeth. A gweddïwn nad yw ei eiriau eisoes wedi gwneud y drwg mawr y mae pawb rhesymol yn ofni y gallan nhw ei wneud.

JOHN PRITCHARD

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



## Dyddiadur Digwyddiadau 1956-1963

**1956 (tua)**

Cyhoeddi'r Ogwen Rural District Official Guide (Issued under the auspices of the Ogwen Rural District Council).

**1956**

04/01/1956: Marw R. Williams Parry. Claddwyd ef ym Mynwent Coetmor.

**1957**

13/02/1957 (Nos Fercher): Perfformiad Cymraeg cyntaf o Alexander Fawr (drama dair act gan Terrence Rattigan a gyfieithwyd i'r Gymraeg Ieuan Llewelyn Jones) yn Neuadd Gyhoeddus Bethesda.
03/1957: Chwaraewyd y gêm bêl-droed gyntaf ar gae newydd Ysgol Dyffryn Ogwen, pan orchfygwyd Friars 5-2 a'r gêm hoci gyntaf pan drechodd y genod Ysgol Llangefni 4-2.
18/09/1957 (Nos Fercher): Ail-berfformiad o Alexander Fawr yn Neuadd Gyhoeddus Bethesda drwy bwyso taer gan aelodau'r cyhoedd. [CYDO]
Prisiau rhai pethau: Tŷ (ar gyfartaledd): £2,170; Peiriant Golchi: £67; Record Hir; £2; Trwydded Deledu: £3; Teledu du a gwyn: £90; 20 sigaret: 15d; pwys o datws: 1d.
Cyngerdd cyntaf Hogia Llandegai yn Ysgol Tŷ'n Tŵr, Bethesda, gyda Neville Hughes, Ron Williams a Now Jones yn aelodau o Grŵp Sgiffl Llandegai. Daeth y Grŵp Sgiffl i ben yn 1964.

**1960au**

Carnifál Tyn-Tŵr.
Y Prifardd Emrys Edwards yn ennill Cadair Eisteddfod Dyffryn Maelor (Rhosllannerchrugog), am ei awdl 'Molawd Cymru'.

**1962**

07/04/1962: Agor 'Gorffwysfan' yn swyddogol gan y Cynghorydd William Ellis Williams.
28/06/1962: Blanche yn tynnu'r gwagenni olaf i lawr o Chwarel y Penrhyn i'r Cei.
24/07/1962: Cau'r lein bach o Chwarel y Penrhyn i lawr i'r Cei ym Mangor yn gyfan gwbl.
Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Llanelli: Caradog Prichard yn ennill y Gadair am ei awdl 'Llef Un yn Llefain'..

**Tua 1963**

Cyngor Dinesig Bethesda yn cymryd meddiant o Gladdfa Ymneilltuol Coetmor.

*I'w barhau*

© Dr J. Elwyn Hughes

# LLYTHYR

Annwyl Llais Ogwan,
Hoffwn ddiolch yn fawr iawn am anfon y siec fel gwobr Croesair Tachwedd 2015.
'Rwyf wrth fy modd yn ceisio datrys y croeseiriau ac y maent yn dod â llawer o bleser i mi.
Mae'n help mawr hefyd i mi gadw'r Gymraeg gan fy mod wedi byw yn Lloegr ers dros drigain mlynedd. Dwi'n aelod o'r capel Cymraeg yma, Bethel, hefyd Merched Y Wawr, Cangen y Canoldir, ac yn aelod o'r Gymdeithas Gymraeg. Felly gwelwch fod gen i fywyd reit Gymreigaidd! Diolch i chi unwaith eto.
Yn gywir,
**Ellen Whitehouse,**
Edgebaston, Birmingham.

# EGLWYS UNEDIG BETHESDA

LLENWI'R CWPAN
Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

# CÔR Y PENRHYN

## CYMERIADAU'R CÔR

Cyfres yw hon sy'n rhoi gwybodaeth am aelodau'r côr. Yr aelod y mis hwn yw **Bryn Evans** sy'n gyn beiriannydd sifil gyda Chyngor Gwynedd. Bryn yw cadeirydd y côr ar hyn o bryd.



**Be' ydy dy enw llawn?** Bryn Evans
**Oed?** – 61
**Gwaith**: Wedi ymddeol yn ddiweddar ar ôl gweithio fel peiriannydd sifil yn adran Priffyrdd a Phontydd y Cyngor Sir am 40 mlynedd.
**Lle wyt ti'n byw?** Rachub
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Cefais fy magu yn y Gerlan a Rhes Gordon..
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** - Tawel a swil gan amlaf; hawdd i wneud efo ac yn barod i helpu unrhyw amser dim ond gofyn yn glên.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Mehefin 1976
**Pa lais wyt ti?** Ail denor, ond unrhyw lais dwi isio ar ôl peint neu ddau
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Ffrind i mi (Els Bach) yn fy mherswadio i ymuno gan addo y baswn i'n mwynhau'r canu a'r cwmni ac y baswn i'n cael hwyl a chael mynd ar dripiau i lefydd pell – mi ddwedodd y gwir.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** 'Dychwelyd', geiriau gwych ac alaw fendigedig.
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Jim Reeves/Ella Fitzgerald, dau efo lleisiau melfedaidd arbennig.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Dwi'n hoffi canu pop ond canu gwlad ydy fy ffefryn. Yn ddiweddar, ar ben-blwydd arbennig, cefais y fraint o ymweld â Nashville a gweld sioe yn y Grand Ole Opry.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r Côr?** Mae gen i lot o atgofion gwych o ganu yn yr Almaen, Canada a'r Ffindir ond hefyd mi fuon ni'n canu fel cefndir i'r grŵp gwerin 9Bach o Ddyffryn Ogwen mewn noson wobrwyo gan BBC Radio 2 yng Nghaerdydd. Llynedd, un o'n cyngherddau mwyaf ni oedd canu gyda band enwog y Black Dyke yn Venue Cymru, Llandudno ac yn fwy diweddar eto mi fuon ni yn America. Ond wedi dweud hynny does 'na ddim i guro canu yn Stadiwm y Mileniwm o flaen 75,000 o bobl cyn gêm rygbi ryngwladol.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** – Dwi wrth fy modd efo bywyd tu allan yn pysgota a cherdded mynydd. Dwi hefyd yn mwynhau canu efo Hogia'r Bonc.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Gan amlaf mae'r côr yn cael gwahoddiad i ganu mewn llefydd fel eglwysi neu gapeli ac mae'r gynulleidfa yn dueddol o fod yn hŷn na fi. Mi hoffwn weld y côr yn trefnu ein cyngherddau ein hunain wedi eu hanelu at bobl ifanc, a gweithio efo grŵp pop neu fand i ddangos beth mae côr meibion yn gallu'i wneud. Drwy hynny efallai y gallem lwyddo i ddenu mwy o bobl ifanc i ymuno efo'r côr.

## Côr Meibion y Penrhyn

Yn dilyn llwyddiant ysgubol cyngerdd agoriadol Pontio cyn y Nadolig yng nghwmni Côr Meibion Llanelli gyda Glain Dafydd ar y delyn a Meinir Wyn Roberts, Soprano, mae'r côr wedi dechrau'r flwyddyn newydd gyda chyngherddau ym Mhwllheli a Henllys.
Codi £1350 at Alder Hey
Ar yr 22ain o Ionawr cynhaliwyd cyngerdd elusennol er budd Ysbyty Plant Alder Hey, Lerpwl yng Nghapel y Drindod, Pwllheli. Daeth cynulleidfa deilwng iawn ynghyd i gefnogi'r achlysur a derbyniodd y côr ganmoliaeth uchel gan bawb oedd yn bresennol am amrywiaeth y rhaglen. Am y tro cyntaf canodd y côr 'Cŵn y Gwynt,' geiriau Syr John Morris Jones ar Alaw Bandura o'r Wcráin, ac fe ganwyd 'Anfonaf Angel' sydd bellach wedi ei mabwysiadu gan Ambiwlans Awyr Cymru fel eu harwydd-gân. Ymunwyd â'r côr gan unawdydd o Langybi o'r enw Seimon Menai. Mae'r gŵr ifanc hwnnw'n meddu ar lais grymus a hyfryd a phrawf o hynny yw'r ffaith iddo ennill ar yr unawd bariton yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Trefnwyd y cyngerdd gan fam un o aelodau'r côr sef Richard Towyn Jones sy'n canu gyda'r ail fas. Bu Ted, mab bach Richard, sy'n byw gyda'i deulu ym Methel, Caernarfon, yn derbyn triniaeth yn Alder Hey ac mae'n bleser gan y côr gyhoeddi bod y swm anrhydeddus uchod wedi'i godi ar y noson. Dim ond un o nifer o achlysuron elusennol a gynhelir yn flynyddol gan y côr oedd hwn ac wrth gwrs nid yw'r côr ei hun yn elwa dim yn ariannol oddi wrthynt.
Henllys
Un o gyrchfannau rheolaidd y côr bellach yw Plasty Henllys, Biwmares. Mae'r lle hwnnw'n cynnig llety moethus i rai dwsinau o bobl o bob rhan o'r byd drwy gydol y flwyddyn ac un o'r danteithion adloniadol a gynigir i'r lletywyr yw cyngherddau gan gorau lleol. Mae'n hyfryd cael cyhoeddi bod cyngherddau Côr y Penrhyn yn derbyn croeso mwy brwd a gwresog nag odid unrhyw gôr arall ac mae'r gwahoddiadau i ni gymryd rhan yn dod yn amlach nag erioed. Er mai cymharol fechan yw'r lolfa lle cynhelir y cyngherddau mae agosatrwydd y perfformwyr at eu cynulleidfa yn fwy na gwneud iawn am hynny.
Ar nos Iau 28 Ionawr cafwyd cyngerdd llwyddiannus arall a dywedodd David Willowby o Harrogate ei fod ef a'i briod wedi mynychu sawl cyngerdd yn Henllys dros y blynyddoedd ond does dim un côr na pharti'n rhoi'r fath wefr iddynt â Chôr y Penrhyn. Bydd ef a'i briod bob amser yn rhoi cylch coch am y dyddiad pan fydd y côr yn perfformio yno.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Ionawr cynhaliwyd cyfarfod deufisol y gangen, a dechreuwyd y noson gyda thawelwch er côf am Peter Clarke (Tregarth) – cyn-gadeirydd y gangen, ac aelod gwerthfawr o'i undeb llafur.
Derbyniwyd adroddiadau am waith Llywodraeth Ewrop (e.e. ni fydd raid talu ychwaneg am ddefnyddio ffonau symudol dramor), Llywodraeth Cymru (e.e.nid yw'r llywodraeth eisiau defnyddio'r cyfyngiadau newydd ar waith yr undebau mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru), Cyngor Gwynedd (e.e. mae'n debyg y bydd yn rhaid talu am barcio ym Maes Parcio Cae Star, Bethesda), a Chyngor Cymuned Bethesda (e.e. bydd y cynghorau cymunedol yn gorfod ystyried talu am finiau halen a'u llenwi).
Anfonwyd swm sylweddol o arian y gangen ymlaen i Blaid Lafur Arfon, i helpu i dalu am ymgyrch Siôn Jones yn etholiad Cynulliad Cymru.
Ar ddiwedd y cyfarfod, trafodwyd Tŷ'r Arglwyddi, a chytunwyd bod angen ail siambr, gyda'r mwyafrif o'r aelodau'n cael eu hethol.
Trist oedd clywed am farwolaeth Violet Williams (Bethesda), a fu'n mynychu cyfarfodydd ac yn helpu'r Blaid Lafur yn rheolaidd.
Yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod o Blaid Lafur Arfon, i dderbyn adroddiadau, a dewis anfonogion ar gyfer Cynhadledd Cymru'r Blaid Lafur, a gynhelir yn Llandudno ym mis Chwefror. Gerry Jenson (Tregarth) fydd y cynrhychiolydd benywaidd.
Cyflwynwyd y ddogfen a ddefnyddir i ffurfio maniffesto'r Blaid Lafur, rhag ofn bod angen cynnig gwelliant neu ychwanegiad yn y gynhadledd.
Tua diwedd y mis, aeth cynrhychiolwyr i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yn Y Rhyl, yn bennaf i dderbyn adroddiadau am waith Llywodraeth Prydain gan Ian Lucas, AS, Llywodraeth Cymru gan Ann Jones AC, a Phwyllgor Gwaith Plaid Lafur Cymru gan Donna Hutton o UNISON. Gan fod etholiad Cynulliad Cymru ar y gorwel, treuliwyd cryn dipyn o amser yn holi Ann Jones, a thrafod ei hatebion.
Bydd cyfarfod nesaf y gangen ar Fawrth y 3ydd, am 7.30.p.m. yng Nghanolfan Cefnfaes, pryd y bydd trafodaeth ar uno cynghorau cymunedol.

# Cyngor Cymuned Bethesda

Dechreuodd y Cyngor drafod ei gyllideb yn y cyfarfod misol ym mis Rhagfyr cyn dod i benderfyniad ddiwedd mis Ionawr. Roedd yr aelodau yn ymwybodol o'r angen i ystyried cymryd cyfrifoldeb am wasanaethau na fydd y Cyngor Sir yn gallu eu fforddio mwyach yn sgîl toriadau gan y Llywodraeth. Un o'r rhain yw cynnal a llenwi'r biniau halen sydd wedi'u lleoli yn y gymuned. Nid oes dyletswydd ar y Cyngor Sir i'w darparu ac maent wedi penderfynu na fyddant yn gallu parhau i wneud hyn ar ôl mis Mawrth eleni. Mae oddeutu 32 o finiau, 13 yn Ward Ogwen, 14 yn Ward Gerlan a 5 yn Ward Rachub. Mae'n anodd rhagweld faint yn union fydd y gost flynyddol o lenwi'r rhain, oherwydd mae'n dibynnu'n fawr ar y tywydd, ond mae'r Cyngor wedi penderfynu codi'r praesept o 6.1%, fydd yn ychwanegu £2 y flwyddyn ar y dreth ar gyfer cartrefi Band D. Mae'r aelodau yn credu bod y cynnydd hwn yn werth ei dalu er mwyn diogelu'r cyhoedd trwy sicrhau bod halen yn dal ar gael trwy'r ardal pan ddaw eira.

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan Ynni Ogwen, sef menter gymunedol newydd a sefydlwyd gan y cynghorau cymuned lleol trwy Bartneriaeth Ogwen, i gynhyrchu trydan glân. Bydd Ynni Ogwen yn gwahodd trigolion y Dyffryn ac eraill i fuddsoddi yn y fenter i osod tyrbin ger Ogwen Bank gan ddefnyddio dŵr o'r afon. Bydd yn gyfle i bobl leol ennill mwy o log ar eu cynilion nag sydd ar gael gan fanciau, a bydd unrhyw elw'n cael ei ddefnyddio er budd y gymuned.

Cafwyd llythyr gan Adran Diogelwch Cymunedol, Heddlu Gogledd Cymru, ynghylch Cynllun Gwarchod y Gymdogaeth. Maent yn awyddus i recriwtio aelodau newydd mewn ardaloedd sydd heb lawer o aelodau ar hyn o bryd. Gall Gwarchod y Gymdogaeth helpu i leihau trosedd, gwella hyder pobl eu bod yn ddiogel, a dod â ni yn nes at ein gilydd fel cymuned. Os oes gennych ddiddordeb yn y cynllun hwn, ewch i'r wefan www.ourwatch.org.uk neu ffoniwch yr heddlu ar y rhif 101.

Bu rhai o'r cynghorwyr mewn trafodaethau â swyddogion y Cyngor Sir ynghylch codi tâl am barcio ym meysydd parcio Bethesda, fel sy'n digwydd trwy'r sir. 'Roedd y Cyngor yn falch na fydd taliadau'n cael eu codi o gwbl ym maes parcio Pantdreiniog, ac y bydd pobl yn cael parcio ym maes parcio Cae Star am bedair awr am £1.00 rhwng 10.00 a 16.30 ac yn ddi-dâl ar ôl hynny. Diolchwyd i'r Cyng. Ann Williams am helpu i sicrhau'r telerau hyn.

Derbyniodd y Cyngor lythyr gan sefydliad sy'n dysgu Saesneg i fyfyrwyr rhyngwladol yn dweud eu bod yn chwilio am bobl i gynnig llety i'r myfyrwyr hyn, sy'n 14 oed neu'n hŷn. Mae'r sefydliad, English Plus, yn cynnig ffi o £16 y noson ac os oes gennych ddiddordeb mewn cynnig llety gallwch ffonio'r rhif 01745 603148.

## LLYTHYR



Trystan Lewis

Sŵn-y-Dail
30 Ffordd Pen-y-Bryn
BAE COLWYN,
Conwy.
LL29 6AF
Ffôn: 01492 534115
post@cormaelgwn.cymru

Annwyl gyfeillion,

Ar ddiwedd y mis hwn, bydd Trystan Lewis yn rhoi'r gorau i arwain Côr Meibion Maelgwn, ar ôl pymtheng mlynedd o arwain. Bu'r côr yn fuddugol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith yn 2005 a 2009 yn ogystal â bod yn y rownd derfynol corau meibion y BBC. Yn ystod y cyfnod hwn, cododd y côr filoedd o bunnau i achosion da o dan ei arweiniad, yn ogystal ag ymweld â Chanada ac Efrog Newydd, Slofenia a Llydaw, a'r Almaen.

Gwasanaethodd gylch ehangach hefyd; bu'n arwain corau meibion unedig gogledd Cymru ddwywaith yn Theatr Pafiliwn y Rhyl, corau meibion unedig Ceredigion ym Mhontrhydfendigaid, a chyngerdd corau unedig yn yr Amwythig.

Mae Trystan yn rhoi'r gorau i'r côr er mwyn sefyll fel ymgeisydd i'r Cynulliad ar ran Plaid Cymru yn Aberconwy. Ei olynydd yw Mererid Mair Williams o Gaernarfon, a fu yn un o gyfeilyddion y côr, ond sydd bellach yn cymryd yr awennau.

'Rydym fel côr yn eich gwahôdd, i gyngerdd gŵyl Ddewi arbennig a chyngerdd ffarwel Trystan Lewis, yng nghapel Seilo, Llandudno, ar nos Sul, 28 Chwefor am 7y.h. Yr artistiaid fydd Côr Meibion Maelgwn, Côr Meibion Aberystwyth, Meinir Wyn Roberts, Caernarfon, (soprano), Elgan Llŷr Thomas, Llundain a Llandudno, (tenor), gyda Catherine Barnett (piano) a Graham Eccles (organ) yn cyfeilio.

Mae'r tocynnau yn £10 a gellir eu cael o Siop Lewis, Llandudno, (01492) 877700 neu gan yr ysgrifennydd, Gwyn R. Williams, ar y cyfeiriad uchod.

Gobeithiwn eich gweld ar 28 Chwefror er mwyn inni gael cyngerdd gwerth chweil.

Ar ran Côr Meibion Maelgwn,

**R. Arfon Williams,**
Cadeirydd.

# Merched y Wawr Bethesda

**Nos Iau Ionawr 28 cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yng Nganolfan Cefnfaes. Croesawyd yr aelodau gan y llywydd, Elina Owen, a dechreuwyd y cyfarfod trwy ganu anthem y mudiad, gyda Gwenno'n cyfeilio.**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Jean Northam a Rhiannon Evans. Cydymdeimlwyd â Jean Northam a Rita Evans, y ddwy wedi colli chwiorydd yng nghyfraith, ac efo Gwenno, sydd wedi colli ffrind o'i phlentyndod o Riwlas. Llongyfarchwyd Elinor Holland ac Eurwen Griffths ar ddod yn hen neiniau i'r un babi, sef mab bach Llyr ac Alaw Holland.

Cafwyd gair o ddiolch gan Pat Corns am y rhodd a dderbyniodd tuag at "Mind" ym Môn, sef yr elusen o'i dewis hi, gan ei bod yn gadeirydd ei chlwb golff ar ynys Môn. Dysgwraig yw Pat, sydd wedi bod yn aelod ers rhai blynyddoedd yn y gangen ond yn swil o siarad yn gyhoeddus. Y tro yma, safodd ar ei thraed i ddweud ei neges yn Gymraeg. Derbyniodd gymeradwyaeth frwd gan yr aelodau eraill. Cyhoeddwyd fod Gŵyl flynyddol y Pum Rhanbarth eleni ar Mai 24, - angen rhoi enwau i'r ysgrifennydd, a bod y pwyllgor anabl yn cynnal distawrwydd noddedig eto yn fuan, ac yn casglu tuag at blant difreintiedig gydag anableddau, er mwyn cael offer celf iddynt. Bydd yr arian yn cael ei ddosbarthu i ysgolion Maesincla a Maesgeirchen.

Cyflwynwyd y siaradwraig, sef Marian Hughes o Rachub, ac adroddodd ei hanes yn yr India. Ar ôl ymddeol o'i gwaith fel gweithiwr cymdeithasol yn 2007, cafodd gyfle i fynd i'r India gyda theulu meddyg o'r India oedd yn gweithio ym Mangor. Yr ardal oedd Kerala yn y de, lle 'roedd prosiect cyffrous ar gychwyn, sef adeiladu adeilad newydd ( gydag arian gan yr eglwysi) i gynnal canolfan addas i roi addysg i enethod ifanc wedi'u geni gydag anabledd a/neu salwch meddwl megis syndrom Down a/neu awtistiaeth. Bu yno dair gwaith i gyd yn ystod y blynyddoedd oedd i ddilyn, gan weld y prosiect yn tyfu a llwyddo. Yn ystod ei arosiadau cafodd gyfle i grwydro'r wlad, gan dynnu lluniau ar y ffordd. Dyna be gawsom ni yn ein cyfarfod, sef ei hanes, trwy'r lluniau, yn rhoi darlun i ni o rai o ddefodau'r wlad, arferion bwyta a gwisgo, ac engrheifftiau o'r gwahanol berlysiau sy'n tyfu yno ac yn cael eu cynaeafu. Cafodd gyfle hefyd i fynd ar y trên i Madras, i ganfod bedd ei hen ewythr a fu farw yn y rhyfel. Gwelsom lun o'r gofgolofn a'r fynwent. Cawsom noson ddifyr iawn yn cael cipolwg ar wlad anghyfarwydd, a'r gwaith elusenol sy'n mynd ymlaen yno.

Diolchwyd i Marian gan y llywydd, ac i'r ddwy a wnaeth y baned, sef Medi a Rita. Rhoddwyd y wobr lwcus gan Medi, ac fe'i enillwyd gan Pat.

Cyhoeddwyd fod y cyarfod nesaf yng Nghaffi Coed y Brenin i ddathlu Gŵyl Dewi gyda bwffe, a bydd Gwilym Bowen yn ein diddanu..

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyr

Cofiwch bod ôl-rifynnau o'r Llais ar gael ar wefan y papur: www.llaisogwan.com

# CARNEDDI ROAD

## AR DDIWEDD Y PUMDEGAU A DECHRAU'R CHWEDEGAU

Gan ANDRE LOMOZIK

*Parhad o rifyn Ionawr*

Tŷ pen oedd ein cartref ni, sef No 25 Carneddi Road, gydag allt yn mynd heibio talcen y tŷ i fyny i gyfeiriad fferm Cilfodan. I fyny'r ffordd hyn hefyd 'roedd popty Trefor Hughes (6). 'Roedd ganddo siop ar y Stryd Fawr ym Methesda, sef Siop No.1. Ar nosweithiau braf o haf, gyda'r ffenestr yn agored, 'roeddwn yn clywed y dynion yn taro'r bocsys bara ar y byrddau i gael y bara allan ohonynt ar ôl iddynt gael eu pobi. Stan Williams (Stan Baker), a fu yn ofalwr yn Ysgol Dyffryn Ogwen am nifer o flynyddoedd wedyn yn yr 80au, Dafydd Davies ac Anthony Jones oedd y tri yr wyf yn eu cofio yn gweithio yno. Weithiau byddem yn cael sbarion rhai o'r teisennau ganddynt, - 'cream horn' oedd fy ffefryn, ac 'rwyf yn dal i fwynhau un o bryd i'w gilydd hyd heddiw. 'Roedd y lludw o'r popty yn cael ei gario i'r ardd y tu cefn i'r adeilad ac yn fryniau o lwch coch. Ychydig ymlaen o bopty Trefor 'roedd popty arall, sef becws Elias Hughes, (7). 'Roedd o leiaf ddau arall yn gweithio yno hefyd, sef ei fab yng nghyfraith, Seymor, a dyn o Rachub.

Tros y ffordd i'n tŷ ni 'roedd stryd o'r enw Cilfodan St. gyda dim ond tri thŷ yn y rhes. 'Roedd y stryd yn arwain at chwarel Pantdreiniog, ble 'roeddem yn chwarae ar benwythnos, a bron drwy'r haf. 'Roedd pob math o geir wedi'u gadael yno ac 'roeddem yn gallu gwneud gwersyll ynddynt. Gêm arall oedd hel poteli gwag, a'u gosod ar hen slab mawr o goncrit, yna dringo i ben y domen a dechrau taflu cerrig atynt, - digon hawdd i ddechrau, ond y person oedd yn taro'r botel olaf i sefyll oedd brenin y diwrnod. Byddem hefyd yn chwilio am nythod jac-y-do er mwyn gweld y cywion, ac ar ddiwrnod gwyntog 'roeddem yn mynd i hedfan barcud o ben pella'r domen. Bu i sawl un fynd i waelod y twll wrth i'r cortyn dorri gan fod y gwynt mor gryf. Ar ôl capel ar nos Sul braf o haf, byddai rhai o'r dynion yn cerdded i ben draw'r domen ac eistedd yno yn cael smôc a sgwrs, a gwylio'r ceir yn dod ar hyd yr A5 o gyfeiriad Bangor, gan droelli trwy'r pentref i fyny heibio cae pêl-droed Parc Meurig i gyfeiriad Nant Ffrancon.

Yn ôl ar hyd Carneddi Road, ychydig yn uwch i fyny na'n tŷ ni 'roedd Capel Salem, (8) a berthynai i'r Annibynwyr ( lle 'roeddwn i a Mam yn aelodau). Yma yr awn i'r Ysgol Su,l a'r Band of Hope yn ystod misoedd y gaeaf, a chofiaf orfod dysgu deunydd ar gyfer yr arholiad. Un tro 'roeddwn wedi bod i lawr at afon Ogwen, ac wedi gwlychu wrth chwarae yno. Cyrhaeddais adref a Mam wedi gwylltio yn lân, ac aeth â mi i'r arholiad fel ag yr oeddwn i wneud fy rhan. Miss Gertrude Thomas oedd arolygydd yr ysgol Sul, a nifer o oedolion eraill yn athrawon, yn eu mysg Mrs Brooks, Anti Cêt, a Mr William Jones.'Roedd gan Mr Jones, (taid Stephen Jones yr ymgymerwr) rywbeth blasus yn ei boced bob Sul i ni i'w fwyta tra yn y wers.

Yn union drws nesaf i'r capel 'roedd y George Inn, (9), nid Y Siôr fel y'i gelwir heddiw! Yno, âi dynion lleol am ychydig i gymdeithasu. Mae gen i lun yn fy meddiant o Dad a ffrind i'r teulu o'r Almaen yn cael gwledd yno, gyda rhai eraill, gan y tafarnwr, sef Meth George, fel yr oedd yn cael ei adnabod gan drigolion Carneddi. O sylwi ar y croeso amlwg sydd yn y llun, mae'n rhyfedd meddwl bod yr Almaen a'r wlad hon yn ymladd â'i gilydd ychydig o flynyddoedd ynghynt.

Tros y ffordd ac ychydig yn nes i gyfeiriad y Gerlan 'roedd siop anti Cêt (10) fel yr oeddwn yn ei hadnabod. 'Roedd hi a'i chwaer yn gwerthu cig, caws, jam, tuniau pys, wyau, da-da, a.y.y.b. 'Roedd Anti Cêt yn ffeind iawn gyda ni blant yr ysgol Sul. Aeth â chriw ohonom o'i dosbarth ar daith ddirgel un diwrnod, - ar y bws o Garneddi i lawr i Fangor, ac yna ar fws arall i'r Borth, dal un o'r cychod, (St. Tudno, St. Trillo, neu St. Seiriol) a hwylio i Landudno, cyn dal y trên yn ôl i Fangor ac adref i Garneddi. Trip gwerth chweil!

O symud ymlaen ar hyd y ffordd 'roedd siop Idwal Hughes, y crydd (11). 'Roedd Mr Hughes yn gloff. Nid wyf yn gwybod os mai anaf ar ôl y rhyfel ynteu nam naturiol oedd hyn. Gallai drwsio pob math o esgidiau, yn enwedig esgidiau hoelion mawr a wisgai'r dynion yn y chwarel. 'Roedd yn ddyn clên iawn, a byddwn wrth fy modd yn ei wylio wrth ei waith.

Y drws nesaf ond un iddo, sef 69 Carneddi Road, 'roedd cartref Mr. a Mrs. Jones (Barbwr) (12). Dyma lle'r oedd fy ffrind Trevor a'i frawd Bobby yn byw. Gweithiai Mr. Jones yn Llanfairfechan yn ystod y dydd, ond byddai'n torri gwalltiau dynion o gymdogaeth Carneddi gyda'r nos, yn ôl y gofyn.. 'Roedd yn ddyn distaw a chlên. Bu Mrs. Jones fel ail fam i mi yn y cyfnod yma o'm mhlentyndod, ac 'roeddwn wrth fy modd yno! Gan fy mod yn unig blentyn 'roedd cael bod gyda'r hogiau yn nefoedd. Pan oedd yn amser cychwyn am adref tua saith o'r gloch yn y gaeaf, byddwn yn peltio mynd gan fod goleuadau'r ffordd yn wan iawn o'u cymharu â heddiw. Rhedwn o un lamp i'r llall gan ei bod hi fel bol buwch rhwng y ddau olau. Mae gennyf atgofion melys, a hiraeth mawr, am y dyddiau difyr a diniwed hynny.

Rhedai lôn gul i lawr heibio tŷ Trevor i gyfeiriad Brynteg a'r capel. Yr ochr arall i'r lôn bach yma 'roedd rhes o dair siop, y gyntaf yn gwerthu bara, ond newidiodd i fod yn siop sglodion (13) ymhen ychydig wedyn. Dynes o Bont Uchaf oedd yn rhedeg y siop. Siop trin gwallt merched (14) oedd wedyn, a Siop gig Hughes (15) oedd ar ben arall y rhes. Cofiaf ddrws hanner a hanner yno, gyda'r hanner uchaf yn agored, cownter hir y tu mewn, a dynion yn paratoi'r cig ac yn gweini ar y cwsmeriaid.

'Roedd y ffordd yn fforchio yn y fan hyn, i lawr am ysgol Pen y Bryn a Bethesda i'r dde, ac ymlaen ar hyd Carneddi i gyfeiriad Bont Uchaf i'r chwith. Yma 'roedd siop Mr. a Mrs. Jones, sef Sheffield Stores (17). Hon oedd y siop fwyaf yn y gymdogaeth, ac ym mhen pellaf y siop 'roedd y swyddfa bost. Mr. Jones oedd y Postfeistr a Mrs. Jones yn gweini yn y siop. Gwisgai Mr. Jones siaced wen bob amser, a Mrs Jones droswisg binc. Cofiaf dair o ferched eraill yn gweithio yno hefyd, sef Mrs. Griffiths o'r Gerlan, Beryl o Faes Bleddyn, a Doris o Gilfodan. Y siop yma oedd archfarchnad y dydd, yn gwerthu pob math o nwyddau, a chofiaf fynd i wneud neges yno i Mam ar fy meic tair olwyn sawl gwaith. 'Doedd dim rhaid poeni am geir yr adeg honno, gan mai dim ond y bws a welem bob rhyw awr, ac 'roedd chwarae pêl-droed ar y ffordd yn gyffredin. I fyny'r ffordd, ger talcen siop Sheffield 'roedd y lladd-dy (16). Cofiaf fynd yno a chwarae yn y corlannau lle y cedwid yr anifeiliaid, ond ni welais yr un anifail yn cael ei ladd yno.

Rhyw dri neu bedwar canllath ymhellach ar hyd y ffordd 'roedd capel y Carneddi a berthynai i'r Methodistiaid Calfinaidd (18) ac wrth ei ymyl safai siop Ffosters (19). Mrs. Hughes oedd yn cadw'r siop yma, - 'roedd ei gŵr yn gapten ar long yn perthyn i'r Llynges Frenhinol, oedd yn hwylio allan o borthladd Caernarfon i osod targedau i'r llu awyr ymarfer arnynt ym Môr Iwerddon. Rhyw ganllath ymhellach draw 'roedd rhif 100 Carneddi Road (20). A dyna ni fel yr oedd Carneddi Road tua hanner can mlynedd yn ôl! Erbyn heddiw mae pob un namyn un, sef y 'George', yn fyw yn y cof yn unig. Os wyf wedi cael ambell ffaith yn anghywir, yna effaith amser ar y cof yw hyn, a gofynnaf am faddeuant!

# LLYTHYR

7, Winkfield Road,
Windsor,
Berks.
SL4 4BA
Ionawr 28, 2016

Annwyl Olygydd,
Daeth tristwch a hiraeth i'm rhan wrth ddarllen hanes Carneddi Road – mae'n anodd coelio fel mae'r blynyddoedd wedi mynd heibio, ynghyd â'r siopau a fu'n rhan o'n bywydau. Yn rhif 10 yr oeddwn i yn byw, a Nain (Jane Jones) yn y tŷ drws nesaf. Gan nad oedd ganddi hi goesau, byddai'n dweud wrthyf: "Dos i siop Cet am ddarn o gaws a phwys o siwgwr i mi, ac i fecws Trefor am dorth fach wen". Atebwn innau: "Os fydd 'na newid, Nain, ga'i brynu da-da?". Blasus bob tro! Stopio tu allan i waith Addie, yn enwedig pan oedd yn weldio, neu eistedd yn siop Idwal crydd, a dysgu sut i drwsio esgidiau. Awn at Wil 'Watches' os oedd problem efo beic, ac edrych dros ei ysgwydd pan oedd yn ceisio rhoi sbring newydd mewn oriawr.
Lle peryglus oedd chwarel Pantdreiniog, ond 'doedd unlle gwell i gael hwyl wrth yrru carreg neu lechen i lawr ochr y twll, gan obeithio y byddai'n cyrraedd y dŵr tywyll ar gwaelod.
Ysgwn i b'le mae'r hen ffrindiau i mi o Garneddi erbyn hyn – Ieuan, Eddie, Dennis, John Rees, a llawer eraill? Cofiaf Doreen Jones (Thomas) a'i theulu yn symud, fel ninnau, i dai newydd Maes Coetmor, a chael cyfleusterau gwell; eraill yn gadael yr ardal yn llwyr.
Edrychaf ymlaen am y Llais nesaf, ond cyn gorffen, rhaid dweud fy mod yn cofio Andre yn cael ei eni, ac 'rwyf yn siwr bod ei dad a'm ewythr Emlyn (Embo) wedi cael amser braf yn y George Inn yn dathlu'r enedigaeth!
Cofion gorau,
John Ffrancon Davies

## DementiaGo

### Dosbarth Ymarfer ar gyfer pobl sy'n byw gyda Dementia, a'u Gofalwyr.

Derbyniodd Adran Cymunedau Iach Cyngor Gwynedd Grant Gofal Canolraddol gan Lywodraeth Cymru i helpu i gefnogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth am gyhyd â phosib, gan leihau'r angen am ymyrraeth ddiangen gan iechyd a gofal cymdeithasol. Clustnodwyd yr arian hwn i helpu pobl sy'n byw gyda Dementia a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt, drwy eu cyflwyno i sesiynau ymarfer grŵp penodol mewn canolfannau hamdden, er mwyn helpu gwella eu gweithgareddau corfforol - cydbwysedd, cryfder, stamina a chydsymudiad. Pwrpas y dosbarthiadau hefyd yw rhoi cyfle i bobl ddod at ei gilydd i rannu profiadau a chyngor.

Cyn i'r dosbarthiadau ddechrau, derbyniodd 90 o staff canolfannau hamdden hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Ddementia, a derbyniodd hyfforddwyr ffitrwydd hyfforddiant arbenigol er mwyn gallu deall anghenion pobl sy'n byw gyda dementia. Nod yr hyfforddiant oedd sicrhau bod staff y canolfannau hamdden yn deall ac yn cydnabod profiadau pobl sy'n byw gyda dementia, a chefnogi'r gofalwyr. Mae'r hyfforddwyr sydd yn gweithio ar y prosiect hefyd wedi'u cymhwyso fel Pencampwyr Ffrind Dementia trwy Sefydliad Alzheimer's, a byddant yn rhedeg sesiynau gwybodaeth i grwpiau yn y gymuned. Bydd hyn i gyd yn help i greu Canolfannau Hamdden sydd yn ystyriol o Ddementia.

Mae'r dosbarthiadau DementiaGo wedi'u sefydlu yng Nghanolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn; Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon, Canolfan Hamdden Glaslyn ym Mhorthmadog. Canolfan Hamdden Dwyfor ym Mhwllheli a Chanolfan Hamdden Penllyn, yn Y Bala. Mae'r dosbarth ymarfer yn mynd ymlaen am oddeutu awr, ac mae'r ymarferion yn canolbwyntio ar gryfhau'r corff a helpu gyda balans. Ar y diwedd mae cyfle i gael paned a sgwrs.

Dywedodd Emma Quaeck, Rheolwr Rhaglen DementiaGo "Mae hi'n ysbrydoliaeth gweld pobl sydd yn byw gyda'r afiechyd yma a'ugofalwyr yn cymryd rhan yn y dosbarthiadau. Mae llawer o hwyl i gael wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau, mae pawb yn annog ac yn helpu'i gilydd, ac mae digon o sgwrsio dros baned ar ôl y wers. Dywedodd un ddynes, sy'n ofalwraig, ei bod yn deimlad gwych gallu chwerthin yn y dosbarthiadau ymarfer - rhywbeth nad yw'n gwneud yn aml gartref. 'Rydym yn credu'n gryf ei bod yn bwysig helpu pobl sydd yn byw gyda Dementia i allu byw bywyd da yn eu cymuned".

Pris pob sesiwn yw £2.00 y pen, a gweler isod am yr amseroedd:-
Dosbarthiadau DementiaGo
Canolfan Hamdden Arfon, Caernarfon
Dydd Llun 11:00yb-12:30yp
Canolfan Hamdden Glaslyn, Porthmadog
Dydd Iau 1.30-3.00yh
Canolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn
Dydd Gwener 11:00-12:30yh
Canolfan Hamdden Dwyfor, Pwllheli
Dydd Mercher 1:30-3:00yh
Canolfan Hamdden Penllyn, Bala
Dydd Llun 1:30-3:00yh

Am wybodaeth pellach ynglŷn â sut i ymuno â'r dosbarthiadau, am sesiynau gwybodaeth Ffrind Dementia, neu am sgwrs ymhellach, mae croeso i unrhyw un gysylltu ag Emma Quaeck – rhif ffôn: 01766 510932 / 07768988095.



# Gwefan Hanes Dyffryn Ogwen





Dyma ddau lun a anfonwyd gan Alun Davies, y naill yn dangos tîm pel-droe Bethesda Athletic ym 1949, a'r llall efallai yn dangos plant Ysgol Bodfeurig ym mis Medi, 1931. Tybed a all rhai o'n darllenwyr roddi enwau i' chwaraewyr a'r plant sydd yn y ddau lun?

## SIOE AMAETHYDDOL DYFFRYN OGWEN

### MEHEFIN 11eg 2016

**Cystadlaethau Gwaith Llaw ar gyfer y Sioe**
**Gwobrau: 1af £3.00, 2il £2.00, 3ydd £1.00**

57. Eitem wedi'i wau â llaw (edafedd dwbl)
58. Eitem wedi'i wau â llaw (edafedd 4 ply )
59. Eitem, neu ddilledyn wedi'i wau â llaw ( unrhyw edafedd)
60. Collage
61. Eitem yn dangos clytwaith
62. Eitem yn dangos pwyth croes (agored)
63. Cerdyn cyfarch (unrhyw gyfrwng)
64. Ffedog / Apron
65. Eitem defnyddiol i'r cartref
66. Unrhyw eitem wedi'I wnïo
67. Unrhyw eitem gan ddefnyddio botymau
68. Clustog (unrhyw gyfrwng)
69. Eitem wedi'iwneud o hen ddilledyn, e.g. siwmper, hosan a.y.b.
70. Unrhyw eitem o grefft o'ch dewis heb fod yn y rhaglen uchod

**Am fwy o wybodaeth, neu raglen lawn, cysylltwch â Gwyneth Morris, rhif ffôn: (01248 600596)**

## Braichmelyn

**Rhiannon Ifans**
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Mae Mrs Helen Williams, Glan Caseg, wedi torri ei braich yn ddiweddar. Anfonwn ei dymuniadau gorau am wellhad buan iddi. Cais taer: a wnewch chwi, drigolion Braichmelyn, anfon eich newyddion at y Gohebydd, os gwelwch yn dda? Diolch!

# Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard**
Llais Afon, 2 Bron Arfon, Rachub LL57 3LW
☎ 601880

**Clwb Llanllechid** Treuliwyd prynhawn hwyliog iawn yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn 2016 yng nghwmni Joe Hughes. Daeth Joe atom i sôn am hel achau a sut i adeiladu coeden deulu. Cafwyd llawer o hwyl wrth i Joe egluro'r gwaith mewn ffordd ysgafn braf. Diolch am ddechrau'r flwyddyn newydd mor dda i ni.

Cafwyd cyfle i anfon cofion yr aelodau at Mrs Margaret Rees Williams, gan gobeithio ei bod yn gwella. Yr un dymuniad a anfonwyd at Goronwy, brawd Rhiannon, sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Cydymdeimlwyd â Rita ar achlysur trist marwolaeth ei chwaer yng nghyfraith yng Nghaerdydd. Ar nodyn hapusach, cyflwynwyd tusw o flodau i Myfanwy ar ddathlu ohoni ei phen- blwydd yn 90 mlwydd oed ym mis Ionawr.

Rhoddwyd y wobr yn y raffl gan Vera, gyda Joe Hughes yn ennill. Margaret ac Arfona oedd yn gofalu am y te.

Gwnaed elw sylweddol o raffl Nadolig y Clwb, a'r enillwyr oedd: Gary Hughes, Nerys,d/o Eirwen, Dona Watts, Rita Evans, Harry Bale, Elin Morgan, Marie Hodson, Dave 600198, Arwen Morgan, Owie, Bryn Owen, Helen Rhys Williams, Llangefni a Brian Jones.

**Diolch** Dymuna Margaret Owen, Tan y Garth, a'r teulu i gyd, ddiolch i bawb am y cardiau a'r negeseuon o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn dilyn marwolaeh sydyn Einion - gŵr, tad a thaid balch. Casglwyd £607 er cof am Einion, ac fe'u rhannwyd fel a ganlyn: Ambiwlans Awyr Cymru £592 a Llais Ogwan £15.

**Dymunwn** wellhad buan i John Roberts, (Britannia), Ty'n Ffridd , sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty, ac i Alice Jones, Tan y Garth - hithau yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

**Llongyfarchiadau** i Jamie a Siân, 3, Llwyn Bedw, ar enedigaeth mab, sef Harry ar Ionawr 30, - brawd i Lily.

Bu Jac Williams, 60 Maes Bleddyn, yn yr ysbyty am gyfnod yn ddiweddar. Da deall ei fod yn well erbyn hyn – anfonwn ein cofion atoch.

**Clwb Hanes Rachub, Caellwyngrydd a Llanllechid.**

Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghyfarfod cynta'r flwyddyn, pan ddaeth criw da ynghyd i wrando ar sgwrs arbennig gan Mr Alaw Jones am waliau diddorol yr ardal. Mae Mr Alaw Jones yn arbenigwr yn y maes, ac wedi derbyn gwobrau lu am ei grefft ar lefel Brydeinig. Disgrifiodd y gwahanol waliau rhwng Mynydd Llandygai a Llanllechid gan gyfeirio at nodweddion arbennig fel dylanwad y tirwedd, y rheilffordd, ofergoelion a hanes. Yna dangosodd i'r gynulleidfa beth oedd gwisg y 'waliwr' rai blynyddoedd yn ôl, sef sachau! Roedd yn sgwrs ardderchog, - diolch yn fawr Alaw!

## Clwb Hanes Rachub a Llanllechid

**Nos Fercher, Chwefror 24**
**am 7 o'r gloch**
**yn Festri Capel Carmel.**
**Bydd Mr.John Hywyn yn sgwrsio am**
**'Y Prifardd Emrys Edwards'**
**CROESO CYNNES!**

## Cau'r drysau am y tro olaf



Capel Bethel, Rachub

**Mam eglwys y Bedyddwyr yn Nyffryn Ogwen oedd Capel y Tabernacl a godwyd ym 1866 y tu cefn i'r Gornal ar y Stryd Fawr ym Methesda (ac a losgwyd yn ulw, fe gofir, ym 1998).**

Ymhen ychydig flynyddoedd ar ôl agor y Tabernacl, cododd anniddigrwydd ymhlith Bedyddwyr ardal Rachub a Llanllechid ynghylch gorfod cerdded mor bell i'r gwasnaethau. Dangosodd aelodau'r Tabernacl eu cydymdeimlad â hwy drwy ddatgan eu bwriad ym mis Ebrill 1884 i godi capel yng nghyffiniau Caellwyngrydd. Symudwyd yn gyflym ryfeddol i wneud hynny. Sicrhawyd benthyciad i gyflawni'r gwaith gan 'Jane Jones, Y Siop' (sef gwraig Thomas Jones o Lannerch-y-medd – a bydd rhai o ddarllenwyr Llais Ogwan yn cofio bod 'teulu Llannerch-y-medd' wedi bod yn adnabyddus iawn yn yr ardal ond stori arall ydi honno). O fewn llai na blwyddyn, sef ym mis Mawrth 1885, roedd y Capel ar ei draed, ynghyd â thŷ ar gyfer y gofalwr. Cyfanswm y gost oedd £778 (rhyw £90,000 yn ein harian ni heddiw!). Ni lwyddwyd i glirio'r ddyled yn llwyr tan 1921 a llafuriodd aelodau'r Capel yn galed mewn gwahanol ffyrdd am flynyddyddoedd lawer i ddileu'r hyn oedd yn ddyledus.



Cadair Eisteddfod Bethel, Rachub 1900

Adeiladwyd Capel Bethel yn yr arddull Gothig ac roedd ynddo 260 o eisteddleoedd. Ni chynhwyswyd ynddo oriel. Ym 1900, cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol yn y Capel a chynigiwyd Cadair hardd, o waith Henry Williams, Llangefni, am y gerdd gaeth orau. Nid ymddengys fod unrhyw un wedi cyrraedd y safon angenrheidiol i blesio'r beirniad a chipio'r wobr, ac ym mhulpud Capel Bethel y treuliodd y Gadair addurnedig gant a phymtheg o flynyddoedd hyd y dydd heddiw. Ond, a benthyca geiriau Eifion Wyn, 'heno pwy a ŵyr ei hynt'?

Dathlwyd hanner canmlwyddiant codi'r Capel mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ym 1935 ond ni fu sôn am ddathlu ei ganmlwyddiant ym 1985.

Mae'n werth crybwyll i R. Coetmor Jones a'i dri brawd, John, William ac Arthur, pedwar o feibion y diweddar Richard a Catherine Jones, Nant-tŷ, fod yn aelodau yng Nghapel Bethel ac aeth y pedwar yn weinidogion gyda'r Bedyddwyr. Mae aelod arall o'r teulu, sef Hedd Williams, wedi bod yn aelod yn y Capel er pan oedd yn blentyn bach iawn a fo, ynghyd â Marian Davies (Carneddi), Margaret Owen (Rachub) ac Eirwyn Williams (Ffordd Abercaseg) fu'n cynnal yr achos yng Nghapel Bethel ers blynyddoedd bellach.

Heddiw, heb ddim ond saith o aelodau ar ôl a rhyw 4 yn mynychu'r oedfaon (a'r Ysgol Sul wedi peidio â bod ers tua chanol y 1990au), a chyda chostau cynyddol i gynnal a chadw'r adeilad a'r achos, ni theimlai'r gweinidog, Y Parchedig Olav Davies (sydd hefyd yn weinidog ar Gapel Penuel, Bangor), fod unrhyw ddewis ond dirwyn yr achos i ben. A dyna a ddigwyddodd ddydd Sul, Rhagfyr 13, 2015, pan gynhaliwyd y gwasanaeth olaf yng Nghapel Bethel, Rachub, dan arweiniad y Parchedig Dafydd Wyn Wiliam, o Fôn, a chydag ychydig eiriau o eglurhad gan y gweinidog dros gau'r Capel.

'Roedd y siom i'w glywed yn llais Hedd Wiliams, a fu, ynghyd â nifer o'r aelodau eraill, yn brwydro'n galed ers blynyddoedd i geisio cadw'r drysau ar agor. "Mae'n amlwg," meddai, "nad oes lle i gapeli ym mywydau pobl erbyn hyn."Wrth adael yr adeilad am y tro olaf, ni ellid peidio â sylwi ar y gofeb farmor ar y mur yn coffáu dau o hogia'r ardal ac aelodau o Gapel Bethel – Griffith Griffiths ac Owen Williams – a gollodd eu bywydau ym mlynyddoedd olaf y Rhyfel Mawr. Arni, yn briodol iawn, dyfynnir englyn adnabyddus Hedd Wyn:



Ei aberth nid â heibio – ei wyneb
Annwyl nid â'n ango'
Er i'r Almaen ystaenio
Ei dwrn dur yn ei waed o.

Beth fydd hanes y garreg goffa hon, tybed?
**JEH**

*Newyddion Capel Carmel ar dudalen 12*

## Y Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams**
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

**Profedigaeth**
'Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda Pam Roberts, Ciltrefnus, a'r teulu i gyd, yn eu profedigaeth fawr yn ddiweddar o golli mab, brawd, a pherthynas annwyl, sef y diweddar David ( Daisy ) Roberts, Llidiart y Gwenyn. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr fel teulu ar yr adeg trist hwn.

**Llongyfarchiadau**
'Rydym yn estyn ein llongyfarchiadau i Gwenno Hodgkins, Y Wern, ar ei llwyddiant diweddar yn cael ei henwebu ar gyfer yr Actores Orau yng Ngwobrau Theatr Cymru. Llwyddodd Gwenno i gyrraedd y rhestr fer o dair am ei rhan yn y Cynhyrchiad 'Drych' gan Gwmni'r Frân Wen. Da iawn, chdi, Gwenno. 'Rydym yn dymuno'r gorau i ti yn y dyfodol, ac yn arbennig yn dy ran nesaf yng nghynhyrchiad y Theatr Genedlaethol o 'Chwalfa', a fydd yn cael ei berfformio yn Pontio yn ystod y mis hwn.

**Chwalfa**
Mae actores arall o'r Gerlan yn ymddangos yn Chwalfa, sef Lisa Jên, Gwernydd. 'Rydym yn edrych ymlaen i dy weld tithau hefyd, Lisa, a phob hwyl i tithau. 'Rydym hefyd yn dymuno'r gorau i bawb arall o'r ardal fydd yn ymddangos yn y cynhyrchiad cyffrous hwn yn Pontio, ac yn edrych ymlaen i'ch gweld i gyd ar y llwyfan.

**Ar y radio**
Braf oedd clywed Gwenfair Vaughan Jones , o'r Gwernydd, ar y radio ddwywaith yn ddiweddar. Mae Gwenfair, sy'n ferch i Jane Jones, Gwernydd, bellach yn byw yn Efrog Newydd, ac yn dilyn gyrfa fel actores yn y ddinas honno. Mewn un rhaglen 'roedd Gwenfair yn siarad gyda Dylan Jones am ei gwaith yn lleisio cymeriad Mrs Tiggywinkle, gan yr awdures enwog, Beatrix Potter, mewn cyfres 'Peter Rabbit', sy'n cael ei darlledu yn fyd-eang. Yn y sgwrs arall, ar Post Prynhawn, 'roedd Gwenfair yn sôn am y tywydd enbyd yr oedd dinas Efrog Newydd yn ei ddioddef yn ddiweddar. Diddorol iawn oedd y ddwy sgwrs, Gwenfair, ac 'roeddem oll yn falch iawn o glywed am dy brofiadau. 'Rydym yn edrych ymlaen i'th weld adref yn fuan iawn.

**Heb fod yn dda**
Mae sawl un o'r pentref heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. 'Rydym yn gyrru ein cofion at bob un ohonoch, gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i chi i gyd.

**Diolch**
Dymuna Myfanwy Jones, Gwernydd, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am eu cyfeillgarwch a'u haelioni ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed.



Casglwyd £1,025 tuag at Ymgyrch Codi Arian ar gyfer Ymchwil Clefyd Siwgr. Diolch o galon i chi i gyd.

## Eglwys Sant Tegai

**Noson Bingo**
Ar nos Fawrth, Ionawr 26ain, cynhaliwyd Noson Bingo arbennig ar gyfer Cronfa Atgyweirio Sant Tegai yn Neuadd Talgai, Llandygai. Cafwyd noson hwyliog dros ben ac elw o £112. Tynnwyd raffl Santes Dwynwen a chyda phleser cyhoeddwyd mai Raymond a Pauline Edwards oedd enillwyr y botel Champagne a blodau. Roedd llu o enillwyr eraill hefyd: Raymond, St. Tegai; David a Sue St. Mair, Gelli; Sue, Llandegai; John, St. Tegai; Mrs Bean, St. Tegai; Mary, St. Tegai; Mrs Davies, St. Tegai; Avril, St. Tegai; Rita, Llangefni (St. Cross); Daphne, St. Tegai; Valmai ,Porthaethwy (St. Tegai); Catrin, St. Cross a Michael, Bethel (St .Tegai). Cyfanswm elw'r raffl oedd £234. Diolch yn fawr iawn i Raymond a Pauline am gynnal y Bingo ac i bawb a werthodd dicedi neu a gyfrannodd wobrau. Mae Nerys Jones, ysgrifenyddes yr eglwys, yn haeddu canmoliaeth am drefnu'r raffl mor ofalus. Edrychwn ymlaen am y Bingo nesaf.

**Gwasanaeth 3 Eglwys yn Sant Tegai**
Ar fore Sul, Ionawr 30ain, daeth aelodau o eglwysi Gelli, Tregarth a St. Cross i eglwys Sant Tegai ar gyfer gwasanaeth ar y cŷd (sy'n arferol ar y 5ed Sul yn y mis). ' Roedd y Parch. John Matthews yn gweinyddu a'r ddarllenwraig lleyg Judith Page yn cynorthwyo ac yn pregethu. Cafwyd cyfraniadau gan aelodau o'r 3 eglwys. Yr organydd oedd Geraint Gill. Diolch i bawb am eu cyfraniad parod i'r cyd-addoli.

**Gwaeledd**
Mae sawl aelod o gynulleidfa Sant Tegai yn disgwyl triniaeth yn yr ysbyty, neu wedi bod yn sâl yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i Mrs Ethel Davies a Mrs Liz Jones, Llandygai, Mrs Enid Gardne,r Bangor a Dr a Mrs Robin Davies, Tregarth. Cydymdeimlwn yn ddwys efo Mrs Alwena Williams Bangor ar golli ei chwaer yng nghyfraith.

**Cynllun Eglwys Agored**
Yn syth ar ôl y Nadolig bu cyfle i Dr a Mrs Ian Russell estyn gwahoddiad i bentrefwyr Llandygai i ddathlu cynllun diwrnodau agored Sant Tegai. 'Rydym yn ddiolchgar i Ian a Daphne am gynnal yr achlysur ac i bawb sydd wedi cyfrannu i'r fenter dros y blynyddoedd. Bwriedir cael trefn newydd yn y Gwanwyn, pan fydd yr eglwys yn agored i'r cyhoedd am gyfnodau hirach.

**Diolch**
Diolch hefyd i'r gwirfoddolwyr sydd wedi helpu i dorri gwair a thacluso'r fynwent yn Llandygai. Braf yw gweld pentrefwyr nad ydynt yn aelodau o'r eglwys yn barod eu cymwynas ac yn ysgwyddo rhywfaint o'r baich o gynnal a chadw. Diolch o galon i chi i gyd.

**Amseroedd y gwasanaethau**
Croeso cynnes i'n gwasanaethau! Mae rhestr o amseroedd ar gael drwy gysylltu â'r Parchedig John G. Matthews ar sue.matthews12@btinternet.com

## Nyth y Gân

**Darllen am y Streic Fawr**

Fe gredodd y gŵr fod 'na rywbeth
Yn hynod o frwnt yn y gwaith
Ddarllenai cyn myned i gysgu
A'i gludo yn ôl amser maith.

Meddyliodd am lawer chwarelwr
Lafuriodd yn galed ar graig
I ennill ond 'chydig geiniogau
A rhoddi y cyfan i'w wraig.

Tair mil a gyflogwyd bryd hynny
Ymhell cyn bod sôn am 'run car
I gludo y gweithwyr fu'n cerdded
Hyd lwybrau a ffyrdd oedd ddi-dar.

Fe erys yr hanes am streicio,
Yr hon fu'n arbennig o faith;
Tair blynedd gymerodd i'w datrys
Cyn gorfod dychwelyd i'r gwaith.

Cymdeithas a chwalwyd drwy'r ardal
A thlodi wynebai bob un,
Mor segur fu'r celfi'n y chwarel
Yn cynnwys sawl morthwyl a chŷn.

Y creithiau sy'n dal i fod yma,
I'r amlwg y dônt hwy sawl tro;
Rhown ninnau i'r plant yr hanesion
I gadw y stori'n y co'.

**Yr Hen Geubren**

O edrych arni'n pydru, a'r hen goed
Bron i gyd yn cysgu,
Yno o'i fewn nerth a fu
A gwanwyn llawn o ganu.

**Rhwydo Adar Mân yn Sbaen**

Yr adar ni wêl rwydi osodwyd
Mor sydyn ar glwydi
I'w dal cyn eu didoli,
Ni all brad fyth ennill bri.

*Dafydd Morris*

## Carneddi

**Derfel Roberts**
Llys Artro, Carneddi
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Llongyfarchiadau mawr iawn i Dr Laura Arman ar gwblhau ei doethuriaeth a dod yn Ddoethor Athroniaeth.

Ar ôl ei haddysg yn ysgolion Bethesda mae Laura wedi bod yn fyfyrwraig ym mhrifysgol Manceinion ers rhai blynyddoedd. Yno enillodd ei gradd baglor mewn Ffrangeg ac Ieithyddiaeth, gradd athro (yn y celfyddydau) mewn Ieithyddiaeth a nawr ei Doethuriaeth.

Mae'r teulu oll yn dymuno'n dda i Dr Arman wrth iddi agor drysau newydd yn ei dyfodol.

## Bethesda

**Ffiona Cadwaldr Owen**
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW
☎ 601592
**Joe Hughes**
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
RachubLL57 3LW
☎ 601902

**Pen-blwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gareth Adams, 32 Abercaseg, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 50 mlwydd oed ar 7 Ionawr. Mae Gareth yn ddiolchgar iawn i deulu a ffrindiau am gofio amdano ar ei ddiwrnod mawr.

**Ysbyty**
Yn ystod mis Ionawr bu sawl un yn yr ysbyty. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref ac yn gwella. Anfonwn ein cofion atoch i gyd ac at bawb sy'n sâl gartref. Dyma'r enwau a ddaeth i sylw'r Llais:- Mr. Emyr V. Jones, Llawr y Nant; Mr. John Williams, Abercaseg; Mrs. Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas; Mr. Raymond Tomlinson, Erw Las; Mrs. Olive Jones, Stryd y Dŵr; Mrs. Eirian Pritchard, Plas Ogwen; Mrs. Margaret A. Jones, Pantglas; Mrs. Buddug Hughes, Carneddi; Mr. Roy Jones, Stryd Fawr; Mrs. Mair Jones, Ffordd Bangor.

Bu Mrs Margaret Rees Williams, Rhos y Coed, yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, yn dilyn damwain yn ei chartref yn oriau mân y bore. Cafodd anafiadau drwg i'w phen a'i brest, ond mae'n gwella'n foddhaol yng ngofal ei theulu. Anfonwn ein dymuniadau am adferiad llwyr a buan i chwi, Margaret.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs. Rita Evans, Erw Las, a Bryn a Caryl a'u teuluoedd. Hefyd, Mrs. Phyllis Evans a Helen a'r teulu . Bu iddynt golli chwaer-yng-nghyfraith a modryb yng Nghaerdydd.

Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Malcolm Williams, Glan Ffrydlas a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli chwaer Eifion, sef y ddiweddar Mrs. Maureen Jones, Penmaenmawr.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf at Mrs Alwen Hughes, Caeathro, yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Ifor, yn dilyn salwch creulon. Mae Alwen yn ferch i'r diweddar Albert a Gwen Jones, ill dau â siopau dillad ar y stryd fawr yn y dyddiau a fu. Cofion atoch oll fel teulu.

**Marw**
Ar 19 Ionawr, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Miss Violet Williams, 33 Adwy'r Nant, yn 82 mlwydd oed, chwaer annwyl y diweddar Mr. Arfon Williams, Bangor, chwaer-yng-nghyfraith ffyddlon Alwen, a modryb a hen fodryb ofalus i David, Sharon, Keith, Jill, Helen, Scott, Ben, Tia a James. 'Roedd Violet yn berson tawel ac yn hoff o gwmni ei theulu ym Mangor. 'Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Carmel, Rachub, Sefydliad y Merched, Clwb y Gerlan, a'r Blaid Lafur.

Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mawrth, 26 Ionawr, gyda gwasanaeth yn ei chartref, yna yng Nghapel Carmel a Mynwent Coetmor. Ei gweinidog, Y Parchedig D. John Pritchard, oedd yn gwasanaethu a Mrs. Helen Williams oedd yr organyddes. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

**Gair o ddiolch**
Dymuna Eira, 29 Ffordd Ffrydlas, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ar 26 Ionawr.

**Gorffwysfan**
Nodyn pwysig i'r holl aelodau:
Cofiwch am y pwyllgor fore Llun 22 Chwefror am 11.00yb.
Materion i'w trafod:
Ethol Swyddogion am 2016 -17.
Gwibdeithiau 2016.

### Marchnad Ogwen

Bydd y Farchnad nesaf ar Fawrth 12fed yn Neuadd Ogwen am 9.30 - 1.30. Croeso cynnes i chi i ymuno â ni am gynnyrch lleol o safon.

Bydd y Stondin Elusen yng ngofal Annwen ac Emlyn Thomas, Tregarth. Byddant yn casglu arian i'r Uned Ymchwil Cancr, Ffordd Deiniol, Bangor er cof am eu mab, Carwyn. Achos teilwng tu hwnt yn sicr. (Nid oes Stondin Elusen yn rhydd eto tan 2017).

Mae'r Stondin 'Un Tro' yng ngofal Eglwys Glanogwen. (Mis Mai yw'r mis nesaf sy'n rhydd i'r Stondin yma, ond yn wahanol i'r Stondin Elusen, mae'n rhaid talu am y Stondin yma fel pob Stondin arall yn y Farchnad). Gobeithio y cawn eich cefnogaeth!

Mae gwybodaeth gyfredol am y Farchnad ar *Facebook*, *Twitter* a'r wefan **www.marchnadogwen.co.uk**

# Balchder Bro Ogwen

Daeth gwirfoddolwyr Balchder Bro Dyffryn Ogwen ynghyd i hel sbwriel ar fore oer ddechrau'r mis hwn gan ganolbwyntio ar gae chwarae Abercaseg.

Dywedodd y Cyng. Ann Williams, sy'n aelod o'r grŵp: "Dwi'n ddiolchgar iawn i'r criw a ddaeth allan unwaith eto i hel sbwriel yn ardal Abercaseg, Bethesda. Mae Balchder Bro wedi trefnu nifer o sesiynau o'r fath yn y gorffennol ac mae'n gyfle gwych bob tro i ni helpu i gynyddu balchder yn ein cymuned.

"Dwi'n ddiolchgar i'r gwirfoddolwyr diwyd a hefyd i weithwyr Cyngor Gwynedd am gydweithio â ni i gasglu'r bagiau ac i ddarparu'r offer. Edrychaf ymlaen at gydweithio gyda nhw i drefnu mwy o sesiynau hel sbwriel eleni."

Ychwanegodd Paul Rowlinson, ysgrifennydd y grŵp: "Dyma weithgaredd cyntaf Balchder Bro eleni. Er bod nifer o'r ffyddloniaid yn methu dod am wahanol resymau, 'roedd yn braf croesawu aelod ifanc newydd, Llinos Hughes, atom. Llenwasom tua 10 o fagiau sbwriel, gan glirio potyn o olew car, siwt taniwr, troli, tri chaead drymiau mawr, pedair pêl-droed a dwy bêl golff.

Bydd y criw yn mynd allan eto yn fuan i dacluso llwybr Gorymdaith Gŵyl Dewi. Bydd yr orymdaith yn achlysur mawr, gyda band yn chwarae, ac mae'n bwysig bod yr ardal yn edrych yn dda."

Mae Balchder Bro Ogwen yn agored i bawb o bob oedran sydd eisiau gwneud rhywbeth ymarferol i wella'r ardal a'i wneud yn fwy deniadol. Os hoffai rhywun helpu neu awgrymu llecyn sydd angen ei glirio, gallant gysylltu â Paul Rowlinson, ar y rhif (01248) 605365 neu ar e-bost: paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk



Dafydd Owen, Ann Williams, Paul Rowlinson, Llinos Hughes, Griff Morris.

## Cyfeillion Ysbyty Gwynedd

Yn dilyn pwyllgor mis Ionawr mae'r aelodau wedi trefnu rhai gweithgareddau ar gyfer 2016.
Dyma ddau ohonynt:-
Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar ddydd Sadwrn, 12 Mawrth. 10.00 – 12.00.
Diwrnod Agored yng nghartref Joe ac Eira, 29 Glan Ffrydlas, Bethesda, ar ddydd Llun, 27 Mehefin. 10.00yb – 10.00yh.

## LLYFRGELL BETHESDA

**Chwilio am sialens newydd yn 2016… ond ddim cweit yn barod ar gyfer y weiren wib?** Os ydych yn hoffi darllen ond yn teimlo eich bod wastad yn glynu at lyfrau cyfarwydd, saff, beth am gofrestru ar gyfer ymgyrch Blwyddyn o Ddarllen Beiddgar gyda Llyfrgelloedd Gogledd Cymru a rhoi cynnig ar rywbeth newydd yn 2016?
Bob mis, byddwn yn datgelu dau lyfr newydd o blith y 24 a gafodd eu dewis yn arbennig ar gyfer 2016, un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg, gan greu calendr o lyfrau gwych. *Rifiera Reu*, gan Dewi Prysor, oedd llyfr Cymraeg mis Ionawr.
Mae llyfrgellwyr ar draws Gogledd Cymru am ddewis llyfrau sy'n eich herio i ddarllen rhywbeth gwahanol. Hefyd, bydd darllenwyr yn cael eu hannog i rannu eu profiadau a'u barn am lyfrau ar y we trwy *Facebook* a *Twitter*. Y syniad yw y bydd 'Blwyddyn Darllen Beiddgar' yn cael ei rhedeg bron fel grŵp darllen, heb i bobl orfod bod yn bresennol. Ewch i dudalen Facebook a Twitter Blwyddyn Darllen Beiddgar, neu ewch draw i'ch llyfrgell leol.

## Yr Eglwys Unedig, Bethesda

**Cyfarfod Gweddi**
Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn o dan ofalGwenno, gydag Elina, Eurwen a Griff yn cymryd rhan. Gwenno oedd y cyfeilydd hefyd, a chafwyd gwasanaeth bendithiol iawn. Diolch iddynt i gyd.
**Sul, Ionawr10fed**
'Roedd oedfa'r bore o dan ofal Rhiannon – diolch iddi hithau am fod mor barod i gymryd rhan.
**Sul, Ionawr 17eg**
Ar derfyn oedfa'r bore, bedyddiwyd pedwar plentyn, sef Cêt Ogwen, Ani Glyn, Ned Ogwen a Twm Ogwen. Ymunodd plant yr Ysgol Sul â'r gynulleidfa, er mwyn bod yn dystion, a chael croesawu'r pedwar bychan i'n plith.
**Sul, Ionawr 24ain**
Croesawyd Mr Richard Lloyd Jones atom i wasanaethu, a balch iawn oeddem o'i weld wedi gwella. Yn ystod oedfa'r hwyr, ymunodd Y Parchedig Marcus Robinson â ni, er mwyn cynnal seiat holi gyda Sioned Williams, sydd yn gwneud cais i fynd i'r weinidogaeth. Cafwyd atebion clir, gonest a diffuant ganddi, a phleidleisiodd y gynulleidfa'n unfrydol i gefnogi ei chais. Pob dymuniad da i ti, Sioned.
**Sul, Ionawr 31ain**
'Roedd oedfa'r bore o dan ofal Ceri a Minnie, ac oedfa'r hwyr o dan ofal Elina a Jean. Tystia'r rhai a oedd yno iddynt dderbyn bendith arbennig o'r ddwy oedfa, ac mae'n diolch yn fawr i'r merched am eu gwaith.
**Bore Coffi**
Cynhaliwyd Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar Ionawr 16eg, o dan ofal Emyr ac Alwenna. 'Roedd llawer o gynnyrch ar werth, gan gynnwys taffi triog yr oedd Clwb yr Ifanc wedi'i baratoi, ac fe wnaed elw sylweddol o tua £450.00 tuag at Ffynnon Dŵr Affrica. Diolch i bawb am bob cymorth.
**Y Gymdeithas**
Croesawyd pawb gan ein Llywydd, Joe Hughes, a darllenwyd yr englyn gan Gwenno. 'Roedd croeso arbennig i Glenys Lloyd Jones a Joe Evans yn ôl i'n plith yn dilyn eu triniaethau meddygol. Y gŵr gwadd oedd Y Parchedig W R Williams, Y Felinheli, a chafwyd noson hwyliog, llawn chwerthin iach. Diolchwyd iddo ef, a'r merched a oedd yn gyfrifol am y baned, gan Joe.
**Cofion**
Anfonwn ein cofio cywiraf at bawb o'r aelodau sydd yn wael ar hyn o bryd, gan ddymuno gwellhad buan iddynt oll.
**Tŷ Capel**
Mae Nicholas, Sioned ac Erin fach bellach wedi symud i mewn i'r Tŷ Capel , ac wedi dechrau ar eu dyletswyddau fel tenantiaid. Croeso mawr i chwi eich tri, a gobeithiwn y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.
**Ymweliad**
Bu plant Ysgol Abercaseg ar ymweliad â'r capel yn ddiweddar, fel rhan o'u prosiect ar gapeli ac eglwysi. Pleser pur oedd cael mynd â hwy o gwmpas yr adeilad hardd yma, ac 'roedd pob un o'r disgyblion yn dangos diddordeb mawr yn y gwahanol ystafelloedd,ac yn arbennig yn yr organ! Diolch i'r athrawon am sicrhau bod plant y fro yn dod i wybod am hanes y dyffryn.
**Gweithgareddau**
O sôn am yr ymweliad uchod, efallai y bydd o ddiddordeb i ddarllenwyr y Llais gael gwybod am y llu o weithgareddau sydd yn digwydd yn y capel a'r festrïoedd o dro i dro, yn ychwanegol at y gwasanaethau, yr Ysgol Sul, paned fore Iau, a Chlwb yr Ifanc bob wythnos. Dyma i chwi restr o rai sydd wedi bod, ac yn dal i fynd ymlaen, yn Jerusalem:
Cyfarfod Gweddi
Seiat
Y Gymdeithas
Y Clwb Celf
Cwmni Dawns
Ymarferion Cwmni Theatr Genedlaethol cymru
Y Sgowtiaid
Karate
Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen
Adran Bentref yr Urdd
Y Pentan
Ymarferion Côr y Dyffryn
Cyngherddau
Gŵyl Afon Ogwen
Partïon Pen-blwydd
Fe welwch felly bod prysurdeb parhaol yn Jerusalem!
Os am logi un neu fwy o ystafelloedd y capel, cysylltwch â Walter Williams (Ysgrifennydd): Ffôn: 01248 601 167, neu drwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk
**Gwasanaethau'r Sul**
(am 10 a 5)
Chwefror 21: Y Parchedig Gwyndaf Jones
28: Y Parchedig Gareth Edwards
Mawrth 6: Y Parchedig Eifion Williams
13: Ms Anna Jane Evans (10)
Y Parchedig Marcus Robinson (5)
20: Y Parchedig Brian Wright
27: Y Parchedig Trefor Lewis

## Eglwys Crist, Glanogwen



**Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:**
**Sul Cyntaf pob mis**
Cymun Bendigaid – 8.00am
Boreol Weddi Cymraeg – 11.00am
**Ail Sul pob mis** - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
**Trydydd Sul pob mis** – Cymun Bendigaid dwyieithog – 110.00am
**Pedwerydd Sul pob mis** - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
**Pumed Sul** - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Pentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)
**Pob bore Mercher** am 10.30am - Cymun Bendigaid
Sul, Chwefror 21, Ail Sul yn y Grawys, Cymun Bendigaid, 11.00am
Sul, Chwefror 28, Trydydd Sul yn y Grawys, Cymun Bendigaid, 11.00am

Mae nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylder. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o'r gwasanaethau.

# Atgofion Plentyn am Fethesda

## Gan David Nicholas

Fe'm ganwyd ym 1933, yn fab i Rees Nicholas – heddwas wrth ei waith. Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, cafodd ei anfon i Fethesda, ond dim ond am ychydig o flynyddoedd, felly, ar ôl gadael yr Ysgol Ramadeg, euthum i weithio i Loegr, ac ni ddeuthum yn ôl i Fethesda fyth wedyn.

Erbyn hyn, 'rwyf yn 82 oed, ac wedi cofnodi fy atgofion plentyn o fywyd ym Methesda yn ystod cyfnod y rhyfel. Yr adeg honno, nid oedd yr offer technegol sydd ar gael heddiw yn bod i ddiddori plant, felly rhaid oedd i ni greu ein hadloniant ein hunain.

Ym Mharc Bryn Meurig y treuliem y rhan helaeth o'n hamser yn chwarae. Yr unig dir gwastad a di-goed yno oedd y darn gyferbyn â'r Clwb bowlio, ac yma y byddem yn chwarae pêl-droed yn y gaeaf, a chriced yn yr haf. Yn anffodus byddai'r bêl o dro i dro yn disgyn ar lawnt y Clwb Bowlio, a'r oedolion oedd yno'n chwarae bowls yn ein melltithio, a bygwth cadw'r bêl, ond yn y diwedd yn taflu'r bêl yn ôl i ni.

Dyma rai pethau eraill a wnaem i ddiddori ein hunain: gwneud cytiau allan o dorchen a choed, dringo coed, chwarae cuddio, chwarae marblis, a cowbois ac indians. Yn yr haf, byddem yn mynd i nofio yn Afon Ogwen, y tu ôl i westy'r Douglas. Byddai gan bob bachgen gyllell boced, a byddai'n ei defnyddio i wneud bwa a saeth, sling, ac, yn y gwanwyn, yn creu pibell effeithiol iawn o frigyn coeden onnen.

Yn y cyfnod yma, 'roedd tair craig yn y Parc yr oedd modd sglefrio oddi arnynt. 'Roedd yn amlwg bod hyn wedi bod yn mynd ymlaen am flynyddoedd maith, gan fod wyneb pob craig wedi'i gwisgo'n llyfn. 'Roedd y sglefren gyntaf rhyw ganllath o bont y Rhinws – byr oedd hon, ac fel y 'Sleid Fach' yr adwaenid hi. 'Roedd yr ail sglefren gyferbyn â'r Clwb Bowlio, ac yn fwy serth na'r gyntaf. Gelwid y drydedd sglefren yn 'Roman Slide' – nid oes gennyf syniad o gwbl pam! 'Roedd hon yr ochr draw i'r graig sydd yn cefnu ar gae Bryn Meurig, yn fwy serth o lawer, ac yn hwy. Yn y gwaelod 'roedd mieri, a wal gerrig! Rhaid cofio nad oedd bechgyn yn gwisgo trowsus hir yn y cyfnod yma hyd nes yr oeddynt tua 14 oed, felly, os nad oedd rhywun yn ddigon call i reoli ei gyflymder (gyda'r esgidiau hoelion mawr a wisgai pawb bron), y canlyniad fyddai ambell asgwrn yn cael ei dorri, angen pwythau, cleisiau lu, a chroen yn cael ei rwygo. Y pechod mwyaf fyddai rhwygo trowsus, gan y byddai'n rhaid defnyddio cwpons dillad i brynu rhai newydd. Yn ddiweddar, euthum yn ôl i Barc Meurig, a darganfod bod y tair sglefren wedi'u cuddio o dan fieri, mwsogl, eiddew, coed a phridd.

Pan oedd angen dewis dau dîm i chwarae gêm, byddai trefn a elwid yn 'Cyfrif Allan': pawb yn sefyll mewn cylch, ac un yn cael ei benodi'n gyfrifwr. Byddai'r

*parhad ar y dudalen nesaf...*

*parhad Atgofion Plentyn...*

bechgyn i gyd yn gyfarwydd â nifer o wahanol adroddiadau, a dechreuai'r cyfrifwr adroddiad gan ddweud y gair cyntaf, a phwyntio'i fys at y bachgen ar y chwith iddo; yna, pwyntio at yr ail fachgen gan ddweud yr ail air, ac ymlaen nes cyrraedd gair olaf yr adroddiad. Yn y fan hon, byddai'r bachgen yn sefyll allan o'r cylch, a byddai'r adroddiad yn ailddechrau gyda'r bachgen nesaf. Âi hyn ymlaen hyd nes y byddai hanner y bechgyn wedi sefyll allan o'r cylch, a dyna ni – dau dîm! Tybed faint o ddarllenwyr y Llais sydd yn cofio'r adroddiad 'Deryn bach melyn yn dodwy wyau melyn; faint gymerwch chwi ohonynt hwy? ......... Un, dau, tri, pedwar, pump......., a cerwch chwi allan yr hen beth bach hyll sydd yn drewi yn y nyth.'?

Ac i gloi, un atgof arall, y tro hwn am gloc y Rhinws. Fy nhad a fyddai'n gyfrifol am ei weindio bob pythefnos. 'Roedd ysgol hir arbennig yng ngorsaf yr heddlu er mwyn iddo allu dringo at y cloc, a byddai'n derbyn tâl o hanner coron bob mis gan y cyngor am gadw'r cloc i fynd!

*[Gol.: Diolch i Mr Nicholas am ei erthygl ddiddorol, a hefyd am ei rodd ariannol i'r Llais.]*

# Cyd Ynni

Cyd Ynni
Ynni LLeol

**Mae cwmni Energy Local a Cyd Ynni (Consortiwm o Gwmnïau Ynni Gwyrdd Cymunedol Lleol) yn bwriadu rhedeg peilot arbennig yn ardal Dyffryn Ogwen i geisio defnyddio ynni hydro cymunedol lleol i werthu trydan yn rhatach i'n trigolion.**

Mae hwn yn brosiect arloesol fydd yn cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ac mae'n cydredeg â nifer o ddatblygiadau ynni cyffrous eraill yn yr ardal.

Mae gan Fethesda nifer o brosiectau hydro llwyddiannus, yn cynnwys cynllun Ynni Ogwen fydd yn cael ei adeiladu ym mis Mai. Ar hyn o bryd, mae'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu gan ein cynlluniau hydro yn cael ei werthu i'r Grid Cenedlaethol am oddeutu 5.5c/KWh ac yna'n cael ei werthu yn ôl i breswylwyr lleol am fwy na dwbwl y pris hwn. Bwriad y prosiect yma yw torri'r dyn canol allan trwy werthu'r trydan gwyrdd lleol yn uniongyrchol i breswylwyr lleol am bris rhatach.

Bwriad y peilot yw recriwtio 100 o gartrefi lleol i ymrwymo i brynu trydan y cwmnïau ynni adnewyddadwy lleol. Er mwyn gwneud hynny, bydd yn rhaid i bawb sydd yn y peilot ffurfio cwmni a bydd yn rhaid i chi ymrwymo i newid cyflenwr trydan i'r Cooperative Energy, a bydd pob cartref yn derbyn mesurydd 'SMART' fydd yn eich helpu i reoli eich defnydd trydan a'ch biliau. Trwy fod yn rhan o'r cynllun, byddwch yn gallu cael mynediad at drydan rhatach pan fo'r cynllun hydro yn rhedeg, a thrydan rhatach yn y nos a dechrau'r prynhawn pan fo'r galw cenedlaethol yn isel. Bydd pob cartref yn wahanol ' rydym yn hyderus y byddwch yn gweld arbediad o hyd at 30% yn eich bil trydan trwy fod yn rhan o'r peilot.

Bydd Cyd Ynni – Ynni Lleol yn recriwtio cartrefi i fod yn rhan o'r prosiect ym mis Mawrth. Bydd cyflwyniadau am y prosiect yn cael eu cynnal yn Neuadd Ogwen ar y 12fed o Fawrth am 10yb a 12yh ac yn Neuadd Mynydd Llandygai ar nos Lun y 14eg am 6.30yh. Anogwn unrhyw un sydd â diddordeb neu sydd eisiau bod yn rhan o'r peilot i gysylltu â Meleri Davies yn swyddfa Partneriaeth Ogwen. Manylion cyswllt: post@ynniogwen.cymru 01248 602131.

**Capel Carmel Llanllechid**
**TE BACH**
PNAWN LLUN,
CHWEFROR 22
2.30 - 4.00

**Capel Carmel Llanllechid**
**GWASANAETH GŴYL DEWID**
Yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc
Chwefror 28 am 10:30

*parhad Rachub a Llanllechid*

## Capel Carmel

**Trefn Gwasanaethau**
Chwefror 21: Y Parchedig John Lewis Jones (5.00)
Chwefror 28: Oedfa Gŵyl Dewi yng nghwmni Plant yr Ysgol Sul a'r Clwb Dwylo Prysur
(10.30yb.)
Chwefror 28: Gweinidog (5.00)
Mawrth 6: Gweinidog – Oedfa Gymun. (5.00)
Mawrth 13: Oedfa. (5.00)
Mawrth 20: Y Parchedig Gwyndaf Jones. (5.00)
Yr Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Prysur: Nos Wener am 6.30 yh.
Te Bach: Dydd Llun, 22 Chwefror. 2.30 – 4.00.

Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlwn fel Eglwys â theulu'r ddiweddar Miss Violet Williams, Adwy'r Nant, Bethesda. Bu Violet yn selog ac yn weithgar yn yr Eglwys.

Bu dwy o'n haelodau yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac anfonwn ein cofion a'n dymuniad am wellhad buan atynt, sef Mrs. Eirian Pritchard, Plas Ogwen, a Mrs. Buddug Hughes, Carneddi.

**Yr Ysgol Sul**
Yn ystod mis Ionawr bu'r plant yn brysur yn gwneud murlun mawr o'r stori: 'Y ddafad aeth ar goll.' 'Roeddent hefyd wedi dysgu'r emyn: 'Yr Arglwydd yw fy mugail' Yn y llun isod gwelwn rai o'r plant y tu allan i'r Festri yn arddangos y murlun.



# Sefydliad y Merched Carneddi

Rhoddodd Rita, ein llywydd, groeso cynnes i bawb i gyfarfod Chwefror o'r Sefydliad, ac fe nododd enwau'r aelodau oedd wedi ymddiheuro oherwydd gwahanol amgylchiadau. Braf iawn oedd gweld Margaret Williams yn ôl yn ein mysg ar ôl ei hanffawd cyn y Nadolig. Gobeithio y byddwch yn dal i wella Margaret!
Yn ystod mis Ionawr collwyd aelod ffyddlon arall o'r Sefydliad, sef Violet Williams, a oedd yn berson distaw ac yn barchus o bawb bob amser. Aeth rhai ohonom i'r angladd yng Nghapel Carmel ar ddydd Mawrth, 26 Ionawr, ac yn ein cyfarfod heno fe safodd yr aelodau ar eu traed mewn munud o dawelwch er parchus gof am Violet. Mae ein cydymdeimlad dwysaf yn mynd at y teulu i gyd yma ac yn Awstralia.
Darllenwyd y cofnodion gan Gwyneth a'r llythyr misol gan Rita, a thrafodwyd y cynnwys.
Ein gwraig wadd oedd Marian Hughes, o Rachub yn wreiddiol, ond wedi byw am gyfnod ym Mangor cyn dod yn ôl i ymgartrefu yn Rachub. Bu Marian yn gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol cyn ymddeol rai blynyddoedd yn ôl. Mae hoffter o deithio'r byd ymhlith ei diddordebau!
Ei thestun heno oedd hanes ei thad yn garcharor yng ngwlad Pwyl yn ystod yr ail ryfel byd. Cafodd amser caled iawn yn y carchar, a phan gafodd ei ryddhau 'roedd yn edrych fel sgerbwd, yn ôl y teulu.
Yr oedd Marian a'i chwaer yn awyddus i fynd i wlad Pwyl i weld y lle yr oedd eu tad wedi ei garcharu. Felly, aeth y ddwy draw yno gan dynnu llawer o luniau. Wrth gwrs, mae gwlad Pwyl wedi newid yn fawr iawn ers yr ail ryfel byd. Dim ond adfeilion sydd ar ôl o'r carchar, ond mae cofgolofn wedi'i chodi yno erbyn hyn.
Cawsom noson ddifyr iawn, a chyfle i bawb hel atgofion am gyfnod yr ail ryfel byd.
Diolchwyd i Marian yn fawr iawn gan Jean Hughes, ac i'r merched am y baned. Enillydd y wobr lwcus, rhoddedig gan Rita, oedd Rosemary.


## SIOP OGWEN 01248 208 485

Cardiau, CD'S, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVD's, *Golwg*, Llyfrau, Lluniau
A llawer mwy!
Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.
**33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)**
**partneriaeth@ogwen.org**

## Talybont

**Neville Hughes**
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

**Diolch**
Dymuna Jean Hughes, Bryn Awel, ddiolch i bawb am eu consyrn a'u cefnogaeth iddi yn dilyn difrod y llifogydd i'w chartref am yr ail waith o fewn cyfnod o 3 mlynedd. Diolch yn arbennig i'w meibion, Hefin a Gareth am eu holl waith caled.

**Gwerthfawrogiad Pobl Dolhelyg**
Daeth i sylw'r Llais fod pobl hŷn Dolhelyg yn diolchgar iawn i'w cymdogion am yr holl gymorth a roddwyd iddynt yn ystod y llanast a ddaeth i'w cartrefi yn sgîl y llifogydd. Pwy ddywedodd bod yr ysbryd cymdogol wedi marw? Mae'n dal yn fyw yn Nhalybont! Ac yn cael ei werthfawrogi.

### Capel Bethlehem

**Oedfaon y Sul**
Chwefror 21: I'w gyhoeddi
Chwefror 28: Gweinidog
Mawrth 6: Y Parchedig Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan

Mawrth 13: Gweinidog;
Mawrth 20: Y Parchedig. Brian Wright

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

**Diolch am gymwynas**
Mae aelodau'r Capel yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig John Mathews ac aelodau Eglwys St. Cross am eu caredigrwydd yn caniatau i ni ddefnyddio Ysgoldy Maes y Groes ar gyfer ein hoedfaon ar y Sul. Onibai am eu gwahoddiad caredig ni fyddem wedi gallu cynnal oedfa am rai wythosau o ganlyniad i'r difrod a wnaed i'r capel a'r festri gan y llifogydd. Diolch o galon.

## Lansio Ynni Ogwen

Ar y 27ain o Chwefror 2016 bydd Ynni Ogwen Cyf. yn lansio cynllun cyfranddaliadau cymunedol i adeiladu cynllun hydro ar yr afon Ogwen. Cynllun fydd yn dod â budd amgylcheddol a chymunedol i'n cymunedau.
Fel y gwyddoch, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn datblygu'r cynllun Hydro cymunedol arloesol hwn ar yr Afon Ogwen ers tua 2 flynedd. Mae'n braf gallu dweud fod y cynllun bellach wedi cael caniatâd cynllunio gan Gyngor Gwynedd, a thrwydded echdynnu dŵr a chaniatâd atal llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. 'Rydym hefyd wedi sicrhau telerau a chytundebau gyda'r tirfeddianwyr, a benthyciad i dalu am y cyswllt Grid, sy'n golygu ein bod bellach mewn sefyllfa i gofrestru ar gyfer taliadau FITs. Y cyfraddau FITs yw prif ffynhonnell incwm y cynllun, ac er i Lywodraeth San Steffan dorri'r cyfraddau hyn yn sylweddol, mae ein cynllun yn dal yn hyfyw ac yn gwarantu cynhyrchu oddeutu 500,000kwh o egni gwyrdd y flwyddyn. Bydd y cynllun felly yn lleihau ôl troed carbon y Dyffryn ac yn cynhyrchu oddeutu £67,000 o incwm yn flynyddol. Bydd cyfran helaeth o'r incwm yma yn mynd yn ôl i ad-dalu benthyciadau i'r banc a thalu difidend i'n cyfranddalwyr, ond bydd unrhyw weddill yn cael ei roi i elusen newydd fydd yn dyrannu'r arian i fudiadau cymunedol ac amgylcheddol yn Nyffryn Ogwen. 'Rydym yn amcangyfrif y bydd £400,000 i'w rannu yn gymunedol dros 20 mlynedd. Mae hwn yn arian fydd yn rhaeadru yn ôl i gymunedau'r fro.

Mae costau adeiladu cynllun Hydro Ogwen yn oddeutu £500,000, gyda'r arian hwnnw yn cael ei gasglu trwy agor cynllun cyfranddaliadau cymunedol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei agor yn swyddogol ar benwythnos y 27ain o Chwefror gyda digwyddiadau yn Neuadd Ogwen Bethesda, ac ymgyrch hyrwyddo ddwys ar-lein.

Mae hwn yn gyfle euraidd i bobl leol berchenogi ein asedau naturiol, a'n helpu i ddefnyddio grym llif yr afon Ogwen i gynhyrchu trydan ac incwm fydd yn llifo yn ôl i'n cymunedau.

Am fwy o wybodaeth am sut i fuddsoddi yng nghynllun Hydro Ogwen, mae croeso i chi edrych ar ein gwefan www.ynniogwen.cymru , neu alw heibio swyddfa Partneriaeth Ogwen am sgwrs.

### Eglwys St Cross

**Boreau Coffi**
Cynhaliwyd ein Bore Coffi misol ar y dydd Mawrth cyntaf o Chwefror yn yr ysgoldy. Fel arwydd o'n gwerthfawrogiad i Glwb Cerddwyr Bethesda am ein cefnogi yn rheolaidd ar hyd y flwyddyn, cafwyd ychwanegiad i'r danteithion arferol. Roedd pawb wedi mwynhau y bore yn fawr. Cofiwch bod croeso i bawb alw am baned ar y bore Mawrth cyntaf o'r mis rhwng 10.30 a 12.00.

**Gwasanaeth yn St. Tegai**
Ar y Sul olaf o Ionawr cynhaliwyd gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys Sant Tegai o dan arweiniad y Parchedig John Mathews, gyda Judith Page yn traddodi'r bregeth. Geraint Gill oedd wrth yr organ. Diolch i aelodau'r Eglwys am y croeso a'r baned yn dilyn yr oedfa.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones**
Dyma Fo, 16 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

**Eirlys Edwards**
Sŵn y Coed, 23 Pentref
Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

**Damwain** 'Roedd pawb yn y pentref wedi'u syfrdanu o glywed bod Mrs Liz Jones, Rhif 21, wedi'i chipio i Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain yn ei chartref. Mae hi bellach yn Ysbyty Stoke, ac wedi cael llawdriniaeth. 'Rydym i gyd yn meddwl amdani, ac yn dymuno gwellhad buan iddi.

**Llifogydd** Anfonwn ein cydymdeimlad at drigolion Tai'r Felin, sydd wedi dioddef o effeithiau'r llifogydd diweddar. Gobeithio nad oedd llawer iawn o ddifrod.

**Y Gwanwyn ar ei ffordd?** Mae'n argoeli felly yn Llandygai, gan fod gan Eirlys Edwards eirlysiau, briallu, saffrwm a chennin Pedr yn blodeuo yn ei gardd ers peth amser!

## Mynydd Llandygái

**Theta Owen**
Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái
☎ 600744

**Diolch** Dymuna Elna, Sharon, Lynne a theulu'r diweddar Gwilym Bullock, 11 Arafon, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Hosbis yn y Cartref er cof amdano. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Huw John Hughes am ei wasanaeth yn yr amlosgfa ac ar lan y bedd, ac i Stephen Jones am ei drefniadau trylwyr.

**Clwb y Mynydd** Bydd Clwb y Mynydd yn mynd am de prynhawn i Fron Goch ar ddydd Mercher, 18 Mawrth. Bydd y bws yn cychwyn am 2 o'r gloch. Cofiwch roi eich enwau.

**Brysiwch Wella** Anfonwn ein cofion at bawb yn y pentref sydd heb fod yn dda eu iechyd ar hyn o bryd

**Eglwys St. Ann a St. Mair**
Chwef. 21: Boreol Weddi
Chwef. 28: Cymun Bendigaid
Mawrth 6: Sul y Fam - Gwasanaeth Teuluol
Mawrth 13: Cymun Bendigaid
Mawrth 20: Boreol WeddiDechreuir am 9.45 y.b.
Estynnwn groeso cynnes i bawb i ymuno â ni yn ein gwasanaethau boreol.
Cafwyd noson arbennig yng nghwmni aelodau Côr Mynydd ychydig cyn y Nadolig - noson o garolau a mins peis. Diolch yn fawr iawn iddynt a gobeithiwn gael eu cwmni rywdro eto yn y flwyddyn 2016.
Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl ar hyn o bryd; anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

## Rhiwlas

**Iona Jones**
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Clwb Rhiwen**
Cafwyd dau gyfarfod ym Mis Ionawr ac yn y cyfarfod cyntaf buom yn trefnu'r rhaglen am y tymor. Wedyn cafwyd trafodaeth ysgafn ar nodweddion arbennig y sawl a aned ym mis Ionawr, beth oedd symbol y mis, diwrnod lwcus, rhif lwcus, cryfder a gwendid y rhai sy'n dathlu pen-blwydd o dan arwydd Yr Afr. Holwyd yr aelodau am ddyddiad eu pen-blwydd hwythau, - cafwyd hwyl, gyda rhai pethau diddorol yn dod i'r golwg. Frances ac Ann oedd yn gyfrifol am y baned, a chawsom ddanteithion hefyd gan Helen a Mair. Ann enillodd y raffl.

Yng nghyfarfod Ionawr 27 cafwyd Bingo a bu Dilys , Ann, Mair a Jean yn fuddugol sawl gwaith. Dilys a Iona oedd yn gyfrifol am y lluniaeth.

*parhad ar y dudalen nesaf...*

*parhad Rhiwlas*

**Dathlu pen-blwydd**
Ar yr wythfed o Ionawr dathlodd Mrs Irene Jones, 12 Bron y Waun, ei phen-blwydd yn 80,oed, a derbyniodd lu o gardiau ac anrhegion. Bu farw ei chwaer, Megan ychydig ar ôl hynny, ac yn sicr o edrych yn ôl 'roedd Irene yn falch bod Megan wedi bod yn rhan o'r dathlu. Un arall a ddathlodd ben-blwydd arbennig ym Mis Ionawr oedd Mrs Meirwen Owen, Fron Deg, - 'roedd yn 90 oed ar Ionawr 11. Ychydig ddyddiau cyn ei phen-blwydd, cafodd godwm, a threulio dwy noson yn Ysbyty Gwynedd ac erbyn hyn mae ym Mhlas Pengwaith, Llanberis, ac yn ôl pob sôn yn cryfhau ac yn dod yn fwy hyderus. Cofion atoch, a brysiwch adref.

Yn ogystal yn ddiweddar 'roedd tri yn dathlu eu penblwydd yn 21ain, sef Gethin Williams, Caeau Gleision, sydd ar ei ail flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, Morgan Huw, Cae Glas, sydd yn crwydro Cymru fel technegydd i Gwmni Frân Wen, ac Emma Owens, Fferm Glanrhyd, sydd ar ei blwyddyn olaf ym Mhrifysgol Bangor. Pob hwyl i'r tri ohonoch yn y dyfodol.

**Genedigaeth**
Ar Rhagfyr29, ganwyd merch fach, Ana Rachel, i Deborah a Steffan Job, 34, Bro Rhiwen, a chwaer fach i Ben, sydd wedi dotio yn ôl pob sôn. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau i Martha, Aralia, sydd wedi dyweddïo â Mark o Gaergybi. Mae'r ddau bellach yn byw yn Nwyran, Ynys Môn.

Yn yr un modd pob dymuniad da i Gwyn, Erw Wen gynt, sydd wedi dyweddïo â Bronwyn. Mae'r ddau yn byw yn Vancouver, Canada, lle y magwyd Bronwyn, a pheth amser yn ôl cawsom hanes ymweliad Linda a Melfyn â hwy.

**Damwain**
Tra'n mynd â'r ci, Huwcyn, am dro, fe syrthiodd Rhian Evans, Cae Glas, ac fe dorrodd ei braich ac o'r herwydd mae wedi gorfod ymweld droeon â'r ysbyty. Tra'n ymweld â Pontio fe syrthiodd Eunice Jones, Llethrau, Caeau , a thorri ei choes, ac mae'n ei chael yn anodd i symud o gwmpas. Gwellhad buan i'r ddwy ohonoch.

**Yn yr Ysbyty**
Mae John Huw Evans yn Ysbyty Gwynedd ers rhai wythnosau bellach, ond yn gwella ac yn cryfhau. Hefyd mae Enid Williams, Pen Bonc, Cae Glas yn ysbyty Eryri, Caernarfon. 'Rydym yn dymuno'n dda i'r ddau ohonoch, a phob un arall sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

**Cydymdeimlo**
Fore Sul, Ionawr 24ain yn 86oed bu farw Miss Megan Wyn Hughes yn ei chartref, Lôn Plas, Waun Pentir, - chwaer annwyl Irene a Tecwyn a'r ddiweddar Glenys, a modryb hoff Maldwyn, Arwel ac Einir a'u teuluoedd. Fe'i ganed yn Tŷ Cefn, a bu'n byw am gyfnod ym Mhenrhyn Teras, cyn symud i Lôn Plas, lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes. Wedi gadael yr ysgol bu'n gweithio mewn dwy siop ym Mangor, a symud wedyn i Ferranti's ac ymddeol yn gynnar wedi anffawd yno. Bu'n gofalu am ei rhieni, William John ac Elisabeth Hughes, ond yn 1980 bu farw ei mam, ei thad a Glenys ei chwaer o fewn saith wythnos i'w gilydd. Bu'n helpu yn yr Ysgol Feithrin am beth amser, ac 'roedd wrth ei bodd yng nghwmni plant ac yn cyfarfod Elliw ac Ifan o'r ysgol a hwythau'n edrych ymlaen am y te bach. Un o'i diddordebau oedd garddio, - 'roedd blodau lliwgar yn yr ardd, a choed ffrwythau. Diddordeb arall oedd teithio, - bu yn yr Aifft, Yr Unol Daleithiau, a sawl gwlad yn Ewrop. Bu'n aelod ffyddlon o Ferched y Wawr a Chlwb Rhiwen. Bu'n mynychu Capel Peniel drwy gydol ei hoes yn ffyddlon, hyd at y cyfnod olaf o salwch. Llwyddodd i aros adref hyd y diwedd oherwydd y gofal a gafodd gan Irene. Bu'r angladd yng Nghapel Peniel ar Chwefror 1af o dan arweiniad Y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid, a daeth tyrfa dda yno. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd. Derbyniwyd rhoddion er cof amdani tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Yn ystod y gwasanaeth darllenodd Elliw Mai yr englyn yma gan W Rhys Nicholas, englyn sy'n disgrifio cymeriad Megan i'r dim:

Gwên siriol oedd ei golud - a gwenu'n
Ddi-gŵyn oedd ei gwynfyd
Bu fyw'n dda, bu fyw'n ddiwyd,
A lle bu hon, mae gwell byd.

Yn dawel yn ei chartref, Cae'r Gôf Bach, yn 72 mlwydd oed, bu farw Elspeth Anne Mitcheson, mam annwyl Beth ac Anna a nain hoff Daniel, Helen, Deryn a Cari, a hen nain Ollie. Treuliodd ei phlentyndod yn rhannol yn Sir Fôn a Llundain. Mae nifer ohonom yn cofio'r teulu yn prynu'r bwthyn ac yn dod yno ar eu gwyliau'n rheolaidd. Erbyn i'r amser ddod i'w rhieni ymddeol 'roedd Elspeth wedi colli ei thad, ac felly ei mam, Mrs Price, a ddaeth i fyw i'r bwthyn. Ymhen amser daeth Elspeth a'r teulu yno hefyd. 'Roedd Elspeth bob amser yn brysur, a llyfrau a llyfrgelloedd oedd ei byd. Bu'n llyfrgellydd ym Mangor, Llandudno ac Ynys Môn. Pan ymddeolodd yn 2000 'roedd yn Gyfarwyddwr Hamdden a Threftadaeth yn Ynys Môn, ond ni fu'n segur wedi'r ymddeoliad, gan iddi fod yn weithgar yn y gymuned a thu hwnt. Bu'n aelod o Ferched y Wawr, Clwb Rhiwen, yn Gynghorydd Cymuned, aelod o bwyllgor y Neuadd ac aelod o fwrdd llywodraethol ysgol Rhiwlas. Bu am flynyddoedd yn cynnal clwb gwaith cartref yn yr ysgol. Bu hefyd yn mynychu Capel Pisgah ac Eglwys Sant Cedol. Cafodd ei hethol hefyd i fod yn un o Ymddiriedolwyr y Llyfrgell Genedlaethol. Er yr holl brysurdeb byddai'n rhoi digon o amser i'r teulu. Bu'r angladd yn yr Amlosgfa ar Chwefror 1af, Gyda'r Parchedig Gwynfor Williams yn gweinyddu. Casglwyd arian er cof amdani tuag at Hosbis yn y Cartref, Gwynedd a Môn, a Melanoma UK. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Beth ac Anna a'r plant.

**Ymateb i erthygl Cynrig Hughes**
Fe gofiwch i Cynrig gwyno i'r Arolwg Ordnans am gam sillafu Moelyci ar un o'i fapiau, ac iddo gael y addewid y bydd y gwall yn cael ei gywiro yn yr argraffiad newydd o'r map. Yn ystod y tywydd garw a gawsom gyda storm Frank dywedwyd yn y Daily Post i gar fynd i drafferthion wrth "the White Bridge" ar Ffordd Cefn Tŷ, ger Llandygai, ac i ddau ddringwr gael eu hachub oddi ar"Sinister Gully" a "Bristly Ridge" yn Nyffryn Ogwen". Gobeithio'n wir na fydd yr enwau yma'n disodli'r enwau Cymraeg!

## Glasinfryn Caerhun

**Marred Glyn Jones**
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

**Newyddion trist**
Ychydig cyn y Nadolig bu farw Mr Kenneth Hughes, 24 Caerhun, yn 65 oed, mab y diweddar Iorwerth (Iorri) a Rene Hughes. Hefyd bu farw Mrs Rose Williams, 25 Caerhun, gwraig Alwyn Williams. 'Roedd yn chwaer i Mrs Rene Hughes, mam Ken.

**Ysbyty**
Mae Mrs Elsie Oswald Jones, Tyddyn Pwll, yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd, - pob dymuniad da iddi am wellhad buan.

**Llongyfarchiadau**
Dathlodd Mrs Muriel Pritchard, Waen Wen ei phen-blwydd yn 97oed ar 22 Ionawr. Pob dymuniad da iddi. Llongyfarchiadau, hefyd, i Mrs Pritchard ar ddod yn hen nain am y deunawfed tro ! Ganwyd mab, Nedw Gwyn Pritchard, i'w ŵyr Rhodri a Haf, Melin y Coed, brawd i Caron a Deio.

**Bingo**
Cynhelir noson Bingo yn y Ganolfan yng Nglasinfryn ar nos Wener, 4 Mawrth am 7.00yh. Bydd yr elw yn mynd tuag at Tŷ Gobaith a'r Ambiwlans Awyr. Dyma'r sesiwn a gafodd ei ohirio cyn y Nadolig oherwydd y tywydd garw.

**Sefydliad y Merched**
O dan lywyddiaeth Mrs Mair Griffiths, cawsom noson ddiddorol yng nghwmni Mr Paul O'Byrne, prif arddwr Plas Newydd a Chastell Penrhyn. Plas Newydd oedd ei bwnc nos Fercher y 13eg o Ionawr.
Wedi trafod materion a chael paned wedi ei darparu gan Marian a Nesta, cawsom dipyn o hanes gwaith Paul yn y gerddi ar Ynys Môn.
Daeth Paul i Blas Newydd rhyw bum mlynedd a hanner yn ôl fel prif arddwr gyda syniadau newydd ar sut i drin gardd hynafol. Ymysg y sleidiau a ddangoswyd oedd un llun o'r Plas oedd yn dyddio o'r 193oau.
Mae llawer wedi newid ers hynny, wrth gwrs, a llawer mwy o bobl yn treulio amser yn y gerddi.
Soniodd fel y dechreuwyd ar y gwaith cynllunio gan dorri llawer o goed i wella'r golygfeydd sydd i'w gweld dros y Fenai i Eryri. Wrth wneud y gwaith canfu un goeden sydd yn 450 mlynedd oed. ( Mae'r goeden yno o hyd!)

Plannwyd nifer fawr o flodau i gael cymysgedd lliwgar, ac fe newidwyd dipyn ar y pergola.

Deallasom ei fod wedi gwella'r man 'Croeso' i ymwelwyr, ac yn y fan hyn gallwn yn awr brynu planhigion sydd wedi'u tyfu ym Mhlas Newydd. Rhaid cofio hefyd am y plant sydd wrth ei boddau yn chwarae a dringo yn y coed. Mae tŷ coeden newydd sbon yno hefyd gyda grisiau a dodrefn ynddo. Yn y dyfodol bydd llwybr troed yn mynd at y rhaeadr ac mae llawer syniad

*parhad ar y dudalen nesaf...*

*parhad Glasinfyn a Chaerhun*

arall ar y gweill. Felly, pan ddaw'r tywydd braf efallai y cawn fynd am sbec i'r gerddi ym Mhlas Newydd i weld ôl ei waith.

Dymunwyd pob llwyddiant iddo yn ei waith a diolchwyd iddo gan Dr Ann Ilsely.

Enillwyd y raffl gan Nesta Parry.

# Tregarth


**Olwen Hills (Anti Olwen)**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

**Angharad Williams**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544


**Cyfarchion Pen-blwydd**
Llongyfarchiadau i Val Hayward, 14 Bro Derfel, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 13 Ionawr. Cafodd barti cofiadwy yng nghwmni ffrindiau a theulu ym Mhant yr Ardd, a Tammy Jones (sef Helen Wyn), sydd hefyd yn byw ym Mro Derfel, yn codi canu. Diolch iddi hi a hefyd i Louise a Bob, Pant yr Ardd, am y wledd arbennig. Diolch hefyd i bawb am yr anrhegion, y cardiau a'r dymuniadau gorau.

Hefyd, pen-blwydd hapus hwyr i Helena Hughes, Pen y Bronnydd, a ddathlodd ei phen-blwydd ar 31 Rhagfyr, a Carol Morris, Dob, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig ar 27 Rhagfyr.

**Ysbyty**
Mae Anne Moses, 21 Ffordd Tan Rhiw, wedi treulio amser yn Ysbyty Gwynedd wedi iddi gael ei tharo'n wael ym mis Ionawr. Mae'r cymdogion i gyd yn cofio ati ac yn dymuno gwellhad buan iddi.

Clywsom fod Llywela O'Brien wedi bod yn yr ysbyty yn dilyn damwain pan syrthiodd a thorri ei braich. Brysiwch wella.

**Clwb 100 Canolfan Tregarth**
**Mis Rhagfyr**

| | | |
|---|---|---|
| 41 | Goronwy Roberts | £15 |
| 3 | Gomer Davies | £15 |
| 16 | Gerallt Williams | £10 |
| 7 | David Hadfield | £5 |

Mis Ionawr

| | | |
|---|---|---|
| 8 | Margaret Jones | £15 |
| 24 | Emlyn Thomas | £10 |
| 25 | Bob Roberts | £5 |

**Profedigaeth**
Ar Ragfyr 14 daeth y newyddion trist am farwolaeth un o fechgyn Tregarth, sef Geraint Wyn Jones, yn Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, ac yntau'n 48 mlwydd oed. 'Roedd Geraint yn ail fab i Valerie ac Islwyn Jones, Valwyn, Dob, ac yn frawd i Gethin a Lesley. 'Roedd yn briod ac yn dad ac yn byw yn Rachub. Cydymdeimlwn fel ardal gyda'r holl deulu yn eu hiraeth ar ôl Geraint.

Hoffai'r teulu ddiolch o galon i bawb am eu geiriau caredig, yr holl gardiau a llythyrau, a'r arian a dderbyniwyd, sef dros £1000.00, fydd yn cael ei drosglwyddo i Ward , i ddiolch am y gofal eithriadol a dderbyniodd Geraint tra yno am ddwy wythnos ar hugain.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gydag Olga a Haydn Davies, Yr Hen Berllan, Dob, a'r teulu, yn eu profedigaeth ddiweddar o golli brawd Olga yng Nghaeathro.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Annwen ac Emlyn Thomas, Tre Ceiri, Tal y Cae, ar ddod yn Nain a Thaid i Tom Emlyn, sef mab bach i Claire ac Osian Emlyn, a brawd bach newydd sbon i Elis Carwyn. Cofion atoch fel teulu.

## Capel Shiloh

**Oedfa am 5 o'r gloch**
Chwefror 14 Y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon
Chwefror 21 Y Parchedig Dafydd Hughes, Caernarfon
Chwefror 28 Y Parchedig Stephen Roe, Porthaethwy
Mawrth 4 Y Parchedig Philip Barnett
Mawrth 13 Y Parchedig Reuben Roberts, Bontnewydd

**Rhodd i'r capel**
Yn ddiweddar cyflwynwyd rhodd arbennig iawn i Gapel Shiloh gan Valerie a David Ellis Jones, Glan Gors, er cof am rieni Val, sef y diweddar Audrey a Laurence Davies, Glan Gors. Cyflwynwyd lliain bwrdd hardd lliw gwîn i'w osod ar y bwrdd Cymun yn y sedd fawr, ac fel aelodau diolchwn am y rhodd hyfryd er cof am ddau aelod a fu'n selog ac yn gefnogol iawn i'r Achos am flynyddoedd lawer.

**Gwasanaethau'r Nadolig**
Pnawn Sul, Rhagfyr 13, cynhaliwyd Oedfa'r Nadolig, gan aelodau ifanc a rhieni'r capel. Cafwyd darlleniadau a charolau pwrpasol, pedwarawd offerynnol gan Deulu Cwm Hyfryd, Mynydd Llandygai, unawd piano gan Gwenno Roberts, a gwybodaeth gan yr ieuenctid am sut mae gwledydd eraill o gwmpas y byd yn dathlu'r Nadolig. Y rhai a gymrodd ran oedd Esme a Luke Crowe, Gwenno ac Iestyn Roberts, Ifan Rhys, Myfi Celyn, Nel Mai, Gwenlli Sanderson, Morus Sanderson ac Osian Sanderson. Diolch o galon am gymorth yr oedolion hefyd, sef Christine Morris Jones, Bethan Crowe, Sioned Roberts, Elin Sanderson ac Ashley Cooke. Diolchwyd am eu cyfraniad gan y Parchedig Philip Barnett. Cafwyd parti Nadolig yn y Festri i ddilyn, ac yn ôl yr arfer daeth Siôn Corn gydag anrhegion i'r ieuenctid.

**Noson Garolau a darlleniadau**
Eirwen a Wynn Williams, Tyddyn Dicwm, oedd yn gyfriol am drefnu oedfa Nadoligaidd nos Sul, Rhagfyr 20. Cafwyd darlleniadau o'r Beibl, detholiad o farddoniaeth o Gymru ar draws y canrifoedd, gan gynnwys gwaith cyfoes a charolau hen a newydd. Diolch i'r canlynol am fod mor barod i gymryd rhan: Anwen Griffiths, Olwen Jones, Angharad Williams, Valerie Ellis Jones, Ffion Rowlinson, Hazel Hughes, Gwenda Davies, Eirwen Williams a Wynn Williams. Cafwyd datganiad cerddorol gan yr organydd oedd yn gwbwl amserol. Bu'n oedfa fendithiol iawn, gan ein paratoi ni i gyd at Ŵyl y Nadolig. Diolch am baratoi, Eirwen a Wynn.
Oedfa Noswyl y Nadolig
Braf iawn oedd cael croesawu ein Gweinidog, Y Parchedig Philip Barnett a'i briod Catherine i'r oedfa Noswyl y Nadolig. Cafwyd pregeth amserol, a chyfle i ymuno wrth Fwrdd y Cymun, cyn noswylio a pharatoi at yr Ŵyl. Diolch i Philip am ei holl waith yma yn Shiloh eleni, a dymunwn iechyd a thangnefedd iddo ef, Catherine a'r teulu yn 2016.

## Merched y Wawr Tregarth

Ar y 27ain o Chwefror 2016 bydd Ynni Ogwen Cyf. yn lansio cynllun cyfranddaliadau cymunedol i adeiladu cynllun hydro ar yr afon Ogwen. Cynllun fydd yn dod â budd amgylcheddol a chymunedol i'n cymunedau.
Fel y gwyddoch, mae Partneriaeth Ogwen wedi bod yn datblygu'r cynllun Hydro cymunedol arloesol hwn ar yr Afon Ogwen ers tua 2 flynedd. Mae'n braf gallu dweud fod y cynllun bellach wedi cael caniatâd cynllunio gan Gyngor Gwynedd, a thrwydded echdynnu dŵr a chaniatâd atal llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. 'Rydym hefyd wedi sicrhau telerau a chytundebau gyda'r tirfeddianwyr, a benthyciad i dalu am y cyswllt Grid, sy'n golygu ein bod bellach mewn sefyllfa i gofrestru ar gyfer taliadau FITs. Y cyfraddau FITs yw prif ffynhonnell incwm y cynllun, ac er i Lywodraeth San Steffan dorri'r cyfraddau hyn yn sylweddol, mae ein cynllun yn dal yn hyfyw ac yn gwarantu cynhyrchu oddeutu 500,000kwh o egni gwyrdd y flwyddyn. Bydd y cynllun felly yn lleihau ôl troed carbon y Dyffryn ac yn cynhyrchu oddeutu £67,000 o incwm yn flynyddol. Bydd cyfran helaeth o'r incwm yma yn mynd yn ôl i ad-dalu benthyciadau i'r banc a thalu difidend i'n cyfranddalwyr, ond bydd unrhyw weddill yn cael ei roi i elusen newydd fydd yn dyrannu'r arian i fudiadau cymunedol ac amgylcheddol yn Nyffryn Ogwen. 'Rydym yn amcangyfrif y bydd £400,000 i'w rannu yn gymunedol dros 20 mlynedd. Mae hwn yn arian fydd yn rhaeadru yn ôl i gymunedau'r fro.

Mae costau adeiladu cynllun Hydro Ogwen yn oddeutu £500,000, gyda'r arian hwnnw yn cael ei gasglu trwy agor cynllun cyfranddaliadau cymunedol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei agor yn swyddogol ar benwythnos y 27ain o Chwefror gyda digwyddiadau yn Neuadd Ogwen Bethesda, ac ymgyrch hyrwyddo ddwys ar-lein.

Mae hwn yn gyfle euraidd i bobl leol berchenogi ein asedau naturiol, a'n helpu i ddefnyddio grym llif yr afon Ogwen i gynhyrchu trydan ac incwm fydd yn llifo yn ôl i'n cymunedau.

Am fwy o wybodaeth am sut i fuddsoddi yng nghynllun Hydro Ogwen, mae croeso i chi edrych ar ein gwefan www.ynniogwen.cymru, neu alw heibio swyddfa Partneriaeth Ogwen am sgwrs.

## Eglwys y Santes Fair

**Gwasanaethau**
Chwefror 21: Boreol Weddi
Chwefror 28: Cymun Bendigaid
Mawrth1: Gwasanaeth Gŵyl Dewi (7.p.m.)
Mawrth 6: Sul y Fam – Boreol Weddi
Mawrth 13: Cymun Bendigaid
Mawrth 20: Sul y Blodau – Boreol Weddi
Pob gwasanaeth am 9.30.a.m. oni nodir yn wahanol.

**Clwb Cant Rhagfyr 2015**
- Rhian Owen
- Sarah Griffiths
- Goronwy Roberts

**Clwb Cant Ionawr 2016**
- Myra Jones
- Rhiannon Sturrs
- Muriel Williams

Yn ystod y Grawys, ar y dydd Iau o bob wythnos, bydd cinio ar gael o 12 – 1.30.p.m., gan ddechrau ar Chwefror 11eg. Y pris fydd £4.50.

## Pentir

**Anwen Thomas**
Min yr Afon,
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

## Eglwys St Cedol

Clwb 100 Mis Ionawr 2016
1 Kim Roberts Deiniolen 2
2 Alison Roberts Rhiwlas 62
3y Ian Williams Rhiwlas 47

**Swper Gŵyl Dewi**
Bydd Swper i ddathlu Gŵyl ein nawddsant ar nos Sadwrn, 5 Mawrth am 6.30yh yn y Ganolfan GLasinfryn. Mae croeso cynnes i chwi i ymuno yn y dathliad.

**Hwyl yr Ŵyl**
Prynhawn Sadwrn y 26 Mawrth – Sadwrn Pasg - cynhelir prynhawn o hwyl yn y Ganolfan, Glasinfryn am 2yh. Bydd helfa Pasg ar gyfer y plant, gêm bingo, tombola, ac ambell stondin, a lluniaeth ysgafn, Mae croeso cynnes i chwi i ymuno yn yr hwyl.

**Gwasanaethau'r Sul**
Pob gwasnaeth am 9.45yb
21.2.16 Cymun Bendigaid
28.2.16 Boreol Weddi
6.3.16 Cymun Pawb – Sul y Fam
13.3.16 Boreol Weddi
20.3.16 Cymun Bendigaid

Mae croeso cynnes i chwi i ymuno yn y gwasnaethau.

# Gair o'r Dosbarth

## Ysgol Tregarth

**Pantomeim**
Gan eu bod wedi ymddwyn mor dda yn ystod y tymor, bu disgyblion yr holl ysgol yn Pontio ym Mangor yn gwylio'r pantomeim 'Melltith y Brenin Ludd' ar ddiwedd y tymor diwethaf. 'Roedd hwn yn bantomeim hwyliog iawn, gyda llawer o dynnu coes y gynulleidfa, digon o jôcs gwirion, a chanu a dawnsio gwerth chweil. Cafodd y disgyblion amser da ac 'roedd pawb wedi mwynhau.

**Cyngerdd Nadolig**
Ar ôl wythnosau o ymarfer a pharatoi gan y plant, cynhaliwyd cyngerdd Nadolig llwyddiannus dros ben yng nghapel Shiloh. 'Roedd thema'r sioe yn seiliedig ar ddarganfod sut mae gwledydd y byd yn dathlu'r Nadolig. Yn ôl y gymeradwyaeth a gafwyd ar ddiwedd y perfformiad, 'roedd y gynulleidfa yn amlwg wedi mwynhau. Diolch i Jones and Whitehead am eu cymorth gyda'r llwyfan, ac i swyddogion Capel Shiloh am eu cydweithrediad, a hefyd i'r rhieni am ddarparu gwisgoedd gwych.

**Ymweliad â Chapel y Ffynnon**
Bu blynyddoedd 1 a 2 yn ymweld â Chapel y Ffynnon ym Mangor yn ddiweddar. Yno, buont yn gwneud gweithgareddau Nadoligaidd, gan ddysgu am stori'r geni, a chymryd rhan mewn drama a gwisgo gwisgoedd hyfryd. 'Roeddynt wrth eu boddau!

**Saer y Sêr**
Bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn gweld perfformiad 'Saer y Sêr' yn Neuadd Ogwen cyn i'r ysgol gau am y gwyliau. Yr oedd yn berfformiad lliwgar, bywiog a chyffrous iawn, a chafodd y disgyblion ac aelodau o'r staff brynhawn difyr iawn.

**Dathlu'r Nadolig yn yr ysgol**
Cafwyd cinio Nadolig ardderchog, wedi'i baratoi gan staff y gegin, eto eleni a phawb wedi bwyta gormod. Cynhaliwyd ein parti Nadolig hefyd, a phawb wedi gwisgo siwmper Nadolig i godi arian at elusen 'Text Santa'. Ar ôl dawnsio a chwarae gemau drwy'r pnawn, bu cynnwrf mawr pan gyrhaeddodd Sion Corn yr ysgol i weld yr oll ddisgyblion.

**Mewn Cymeriad**
Cafodd dosbarthiadau Ogwen, Ffrydlas a Thryfan wledd pan ddaeth cwmni 'Mewn Cymeriad' i ymweld â'r ysgol eto eleni, y tro hwn gyda chymeriad Mari Jones. Cafodd y plant fodd i fyw yn chwarae rolau amrywiol a dysgu am y Gymraes sydd wedi gadael ôl ei throed ledled y byd, drwy gerdded o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala i brynu Beibl. Sioe fywiog a diddorol a roddodd bleser mawr i'r plant.

**Llongyfarchiadau!**
Llongyfarchiadau mawr i Lola Townsend a fu'n cystadlu yn ddiweddar yng Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Cafodd enillwyr y rowndiau rhanbarthol eu gwahodd i Gaerdydd er mwyn cystadlu yn erbyn enillwyr y rhanbarthau eraill. Perfformiodd Lola yn arbennig a chafodd ganlyniad ardderchog.

**Cynhadledd Siarter Iaith**
Yn ddiweddar bu cynhadledd arbennig yng Nghanolfan Glasdir, Llanrwst er mwyn lansio'r Siarter Iaith i ysgolion cynradd Conwy, Dinbych, Wrecsam a Fflint. Mae'r ysgol wedi bod yn rhan o'r cynllun ers y dechrau ac oherwydd llwyddiant a brwdfrydedd yr ysgol gwahoddwyd Mrs Alison Halliday a rhai o ddisgyblion yr ysgol i rannu ein harferion. Rhoddodd Mrs Alison Halliday gyflwyniad anhygoel i'r sawl a fynychodd y gynhadledd. Perfformiodd Esther, Acacia, Asha, Jac a Cai yn arbennig wrth gyd-ganu anthem y Siarter Iaith a rapio gydag eraill, - da iawn chi!

**Castell Dolbadarn a Chaernarfon**
Bu dosbarth Tryfan (blwyddyn 3, Mr ) yn mwynhau taith ganoloesol yn ddiweddar wrth ymweld â chestyll Caernarfon a Dolbadarn. Cafodd y plant y cyfle i wisgo dillad o'r cyfnod, crwydro'r cestyl,l a dysgu am hanes a helyntion Owain Glyndŵr, Edward 1af a Llywelyn. 'Roedd yr ymweliad yn rhan o thema'r dosbarth ar gyfer yr hanner tymor , sef 'Cestyll a Dreigiau'. Cafwyd y cyfle i ateb nifer o gwestiynau diddorol a phwysig megis 'Ble oedd y Brenin yn cael eistedd?' 'Beth oedd pobl bwysig y cestyll yn ei

*parhad ar y dudalen nesaf...*


Castell Dolbadarn


Castell Caernarfon

gael i fwyta?' a 'Ble oedd y toiledau?' Mae'r plant wedi mwynhau creu modelau 3D o gestyll a dreigiau yn ogystal â dysgu am y cyfnod hwn trwy sesiynau fel y sioe Owain Glyndŵr gan gwmni 'Mewn Cymeriad'. Pleser oedd gweld Glyndŵr yn annerch y dorf a floeddiodd bod Cymru yn rhydd! Mae nifer o luniau a fideos o'r gweithgareddau yma ar ein tudalen Trydar @ysgoltregarth.

**Cynllun Beicio Sustrans**
Daeth Gwen Thomas atom i sôn am gynllun 'Sustrans'. Mae'r cynllun hwn yn ceisio annog mwy o ddisgyblion i gerdded, beicio neu ddod i'r ysgol ar sgwter. Cynhaliwyd gwasanaeth yn egluro beth yw'r cynllun, ac 'roedd y disgyblion i gyd yn ymateb yn gadarnhaol ac i'w gweld yn awyddus i geisio lleihau'r defnydd o geir. Mae'n fwriad gan yr ysgol i fod yn rhan o'r cynllun, a bydd gweithgaredd ar y gweill gennym yn y dyfodol agos.

**Cystadlu**
Bu tîm pêl-rwyd Dosbarth Ogwen yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i'r plant gymryd rhan yn y gystadleuaeth ac 'roedd yn brofiad gwerth chweil iddynt. Gweithiodd y plant yn arbennig o dda fel tîm, ac 'roeddent i gyd yn falch o gael cynrychioli'r ysgol a'r ysgol hefyd yn falch iawn ohonyn nhw. Da iawn chi!

## Ysgol Abercaseg

**Adnabod ein hardal**
Ein Pentref yw thema'r dosbarthiadau'r tymor hwn a bu'r plant am dro ar hyd stryd Bethesda. Yn ogystal â hyn trefnwyd ymweliad â chapel Jerusalem, a hoffai plant a staff yr ysgol ddiolch o galon i Walter a Menai Williams am y sgwrsio, canu ac ateb cwestiynau'r plant.(Llun 1 a 2)

**Gweithdy Techniquest**
Daeth Cwmni Techniquest i ymweld â'r ysgol ddechrau Ionawr, i gynnal gweithdy am 'Hen Deganau' gyda blynyddoedd 1 a 2. Cafodd y disgyblion ddatblygu eu medrau gwyddonol a rhifyddol yn ystod y bore wrth ddysgu am gydbwysedd a didoli teganau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Bu i bawb fwynhau'n arw ac mae hen edrych ymlaen am y gweithdy nesaf yn dilyn gwyliau hanner tymor.

**Gwersi nofio a chlybiau ar ôl ysgol**
Mae plant Blwyddyn 2 wedi dechrau ar gyfres o wersi nofio ym Mangor ac mae'r clybiau ar ôl ysgol wedi ail ddechrau. Clybiau Mathemateg a Thechnoleg Gwybodaeth a geir y tymor hwn, pryd y bydd y plant yn ymarfer eu sgiliau rhesymu a datblygu eu medrau TGCh.

**Meithrin 2016**
Cynhaliwyd prynhawn agored ar gyfer y plant fydd yn dechrau yn nosbarth Meithrin yr ysgol ym mis Medi. 'Roedd hi'n braf gweld dosbarth o rieni cyfarwydd yn ogystal â wynebau newydd. Cofiwch bod angen cofrestru ar gyfer cychwyn yn y dosbarth Meithrin erbyn Mawrth 1af.



Mynd am dro ar hyd stryd Bethesda



Plant Ysgol Abercaseg....??????????

## Ysgol Bodfeurig



Dydd Mercher, Ionawr y 13eg, aethom ar drip i Lerpwl - 'roedd pawb ddosbarth Ogwen wedi codi ar doriad y wawr. 'Roeddem yn mynd i amgueddfa hanes Y Beatles yn Albert Dock.
Ar ôl dwy awr ar y bws cyrhaeddwyd y ddinas fawr. Parciodd y bws yn y dociau, ac i ffwrdd â ni am yr amgueddfa.' Roedd pawb wedi'u cyffroi.
Cawsom edrych ar ffasiwn yn y 60au – Mods, Rockers a Hippies, - a chael cyfle i ddylunio gwisgoedd.
'Roedd yna siop recordiau hen ffasiwn. Cawsom gyfle i wisgo i fyny a dawnsio i gerddoriaeth yn cael ei chwarae ar chwaraewr recordiau.
'Roedd y drydedd weithgaredd yn wych. 'Roedd piano mawr rhyngweithiol ar y llawr, ac 'roeddem yn cael chwarae'r piano drwy neidio ar yr allweddi, - cyfle gwych i ddechrau dysgu rhai o ganeuon enwocaf y Beatles, fel 'Yellow Submarine'.
Cawsom weld y piano gwyn enwog, a gwrando ar y gân' Imagine' gan John Lennon. Heb os nac oni bai 'roedd yr amgueddfa yn anhygoel! Ond 'doedd ein diwrnod ddim ar ben.......
Aeth Mrs Jones â ni i'r 'Beatles 4D Experience'!! 'Roedd pethau yn neidio allan o'r sgrîn fawr, a'r cadeiriau yn ysgwyd, ac yna cawsom ein chwistrellu gyda dŵr! Profiad bythgofiadwy!
*Gan blant Dosbarth Ogwen*

**Sioeau 'Mewn Cymeriad'**
Mae dosbarth Ogwen a Tryfan wedi dysgu llawer am hanes Cymru y mis yma trwy gyflwyniadau arbennig 'Mewn Cymeriad'. 'Rydym wedi ymgolli yn hanes Mari Jones yn cerdded i brynu Beibl, ac wedi rhyfeddu at hanes Owain Glyndwr.



'Roedd llawer o blant yn cael cymryd rhan yn y sioeau, ac yn bendant cawsant eu hysbrydoli i ddysgu mwy am hanes Cymru.

**Adolygiad o sioe 'Drwg' gan Theatr Bara Caws**
Dydd Llun, Chwefror y 1af, aeth plant dosbarth Tryfan i weld sioe arbennig o dda o'r enw 'Drwg!' 'Roedd y sioe yn Neuadd Ogwen, Bethesda, a phawb yn llawn cyffro wrth gyrraedd. Stori oedd hon am Rhita Gawr, - 'roedd Rhita yn ffrindiau mawr efo Beti, hyd yn oed pan oedd Rhita yn gas. 'Roedd y set pan oedd y sêr allan yn anhygoel ac yn hudolus iawn, iawn, iawn. 'Roedd y sioe yn arbennig o dda. Heb os nac oni bai fy hoff ran oedd y carnifal, oherwydd fod Eira Fach (yr afr) yn ddoniol ar y beic un olwyn. Os yda chi'n hoff o Rhita a'i ffrindiau, ewch i weld y sioe am lond trol o hwyl a sbri! *Gan Sophie*

# Croesair

Chwefror 2016

## Ar draws

1 Yr ym ynghanol codi er mwyn ceisio gwneud pethau'n well rhyngom (6)
7 Gall fod yn brif amddiffynfa ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos yng Nghymru (7)
8 Gweiddi'n groch (8)
9 Un o'r pethau "sydd yn datgan mawl ein Iôr" yn ôl yr emynydd Elfed (5)
10 Yn rhyfedd, mae arnai bres (5)
11 Ffyddlon (4)
12 Chwit-chwat (5)
15 "Duw cariad yw" (5)
16 Yn ddiarhebol, yn hwn mae nerth (5)
19 Fry uwchben (4)
20 Dyma faint sydd ar ôl (5)
21 Santes eglwys ym Môn ar lannau'r Fenai (5)
22 Hanner y ddynoliaeth (8)
23 Sylwedd mewn gwyddoniaeth neu fferylliaeth (7)
24 Blagurodd (6)

## I lawr


1 Am y gorau (8)
2 Moby Dick a llyncwr Jona (8)
3 Efallai (5)
4 19 Ar Draws o'r de (3)
5 Dangos sut i wario'r amser yn gall (6)
6 Myglys, ond dim mewn lle cyhoeddus ! (6)
7 Dim brwydr goncyrs i'r plant hebddi (11)
9 Dod i gael llymaid (4)
13 Iseldiroedd (8)
14 Y bore glas (8)
15 Dyna ddihiryn drwg (4)
17 Seirff (6)
18 "Cyfoeth nid yw ond ------" cân (6)
20 Balchder ymffrostgar (5)
22 '--- o Gysgodion', nofel enwog Jane Edwards 1964 (3)

## Atebion IONAWR 2016

**AR DRAWS** 1 Ffrwydro, 5 Plaid, 8 Ionor, 9 Erlidio, 10 Dibriod, 11 Dilyw, 12 Deunydd, 14 Exeter, 17 Dioty, 19 Henaint, 22 Rwsiaid, 23 Diwyd, 24 Delyth, 25 Genwair
**I LAWR** 1 Ffeind 2 Wynebau, 3 Dwrgi, 4 Olew Du, 5 Pelydr X, 6 Ardal, 7 Diotwyr, 12 Dedfryd, 13 Ysywaeth, 15 Teilwra, 16 Ehedeg, 18 Oesol, 20 Nodyn, 21Tudur

Camsillafu un gair a ddymchwelodd nifer ohonoch y tro hwn. Ateb cliw 5 I Lawr oedd 'Pelydr X',
Ond y mae 8 ohonoch wedi rhoi Peledr. Wps! Ond rhaid i mi gosbi er tegwch â'r rhai a roddodd y sillafiad cywir. Sillafiad anghywir arall oedd 'diliw' yn lle'r ateb cywir 'dilyw', sy'n rhoi ystyr hollol wahanol.
Hefyd cafwyd 'Ianwr' gan ddau gynnig yn lle 'Ionor' yr hen air am Ionawr.
Gan y canlynol y cafwyd atebion hollol gywir : Gwilym Evans, Niwbwrch; Derek a Mai Jones, Rhiwlas, Falyri Jenkins, Tal-y-Bont, Ceredigion; Elizabeth Buckley, Gareth a Sara Oliver, Dulcie Roberts, Tregarth; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gareth William Jones, Bow Street; Gaynor Elis-Williams, Gwen Evans, Gwil Owen, Bethesda; Ellen Whitehouse, Birmingham; Gwenda Roberts, Rhosmeirch. Da iawn bob un.

Y cyntaf allan o'r het i dderbyn y wobr oedd cynnig **Ann Carran, 26 Ffordd Ffrydlas, Bethesda, Gwynedd**. Llongyfarchiadau mawr i chi.
Atebion erbyn **2 Mawrth, 2016** i 'Croesair Chwefror', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD



Atebion erbyn 2 Mawrth, 2016 'Croesair Rhagfyr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:


Canolfan Cefnfaes
BETHESDA

• GYRFA CHWIST •

**23 Chwefror**
**8, 22 a 29 Mawrth**

**am 7.00 o'r gloch**

**Croeso i bawb!**



Siân Gwenllian

Ymgeisydd Etholiad Cymru
5 Mai 2016

siangwenllian@yahoo.com
01286 672510
07775 642202
SianGwenllianArfon
@siangwenfelin



Plaid Cymru | Party of Wales

Llais newydd i ARFON
Llais cryf i'r Gogledd

Hyrwyddwyd gan: Dafydd Meurig, Isfryn, Llanllechid, Gwynedd, LL57 3LB ar ran: Siân Gwenllian, Awelfryn, Pen y Bryn, Y Felinheli, LL56 4YQ.

## DYDDIADUR BOREAU COFFI 2016

**Mawrth**
05 Mawrth - Cefnfaes - Plaid Cymru.
12 Mawrth – Cefnfaes – Cyfeillion Ysbyty Gwynedd.
19 Mawrth – Cefnfaes - Cronfa Goffa Tracey Smith.
**Ebrill**
09 Ebrill – Cefnfaes – Plaid Lafur.
16 Ebrill – Cefnfaes – Capel Jerusalem.
23 Ebrill – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
30 Ebrill – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir
**Mai**
07 Mai – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
14 Mai – Cefnfaes - Cymorth Cristnogol
21 Mai – Cefnfaes - Gorffwysfan
**Medi**
24 Medi – Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracey Smith.
**Hydref**
29 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant Cedol, Pentir
**Tachwedd**
19 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.

**Pwysig**
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

## Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

**Nos Lun 14 Mawrth 2016 am 7.00 o'r gloch**
yn Festri Capel Jerusalem
'Darlith Goffa Rhiannon Rowlands'
gan Dafydd Roberts
"Dros Ryddid a Thros Ymerodraeth'
Ymatebion i ymgyrch recriwtio yn Nyffryn Ogwen
£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau.

## PLAID CYMRU

Cangen Dyffryn Ogwen
Cynhelir
**Cyfarfod Bynyddol**
Dydd Gwener 19 Chwefror
am 7:00 o'r gloch
yng Nghanolfan Cefnfaes
CYFARFOD AGORED
am 7:30

Siaradwr Gwadd: Alun Ffred Jones AC

## Canolfan Cefnfaes

**BORE COFFI**
**Cronfa Goffa Tracey Smith**
**Sadwrn**
**19 Mawrth**
10:00 – 12:00

Mynediad £1.00

## Canolfan Cefnfaes

**BORE COFFI**
**Cyfeillion Ysbyty Gwynedd**
**Sadwrn**
**12 Mawrth**
10:00 – 12:00

Mynediad £1.00

## Canolfan Cefnfaes

**BORE COFFI Plaid Cymru**
**Sadwrn 5 Mawrth**
10:00 – 12:00
Mynediad £1.00

## Cinio Grawys Eglwys Santes Fair, Tregarth

**25 Chwefror**
**3, 10 a 17 Mawrth**
12:00 – 1:30yp

## Marchnad Ogwen

**Mawrth 12fed**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

**Ebrill 9fed**
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

**Ebrill 20fed**
Neuadd Ogwen 5pm - 8pm

**Mai 14eg**
Neuadd Ogwen 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #MarchnadOgwen
Facebook

## Neuadd Ogwen

## Cyngerdd Gŵyl Ddewi

**gyda**
Phlant Ysgolion Lleol
**Dydd Sul, 28 Chwefror**
am 3:00 o'r gloch
**'Dewch i ddathlu'**

## YN EISIAU - GWIRFODDOLWYR!

Mae **Neuadd Ogwen** angen mwy o wirfoddolwyr i helpu yn ystod ein digwyddiadau.

Eich neuadd chi yw hon!

Am ragor o wybodaeth: Cysylltwch ag Owain ar 01248 208 485 neu 07442 532 746 owain@neuaddogwen.com neu gyrrwch neges drwy dudalen **Facebook** y Neuadd

**Copa**

**Siop Trin Gwallt a Harddwch**

Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a siafio
(fel yr "cut throat")

## Y Douglas Arms

*Lluniaeth i Bartïon *Te Cynhebrwng *
*Gardd Gwrw *Te a Choffi *
**Oriau Agor**
**Llun – Gwener: 6.00 - 11.00**
**Sadwrn: 3.30 – 12.00**
**Sul: Prynhawn 1.00 - 4.00, Hwyr 7.00 -11.00**
**01248 600219**
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

## CAFFI COED Y BRENIN
**1 Rhes Buckley, Bethesda**

**Ffôn: 01248 602550**

karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus**
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*

**Cinio arbennig bob dydd Iau**

**Bwyd i'w gario allan**

**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati**
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*

**Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd**

**Prisiau rhesymol**

## BISTRO'R BRENIN
## (Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

## DAFYDD CADWALADR

**Cynhyrchion Coedlannol**

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

**01248 606207**

## Gareth Williams
**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**

**GWASANAETH DYDD A NOS**

## Londis Bethesda

☎ 01248 605500
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**Pob math o waith trydanol**

## Huw Jones

**Ymgymerwr Trydanol**
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
**Ffôn: 01248 602480**

## Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



## L. Sturrs
## a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
# ADEILADWYR
**Hen Iard Stesion,**
**Ffordd y Stesion, Bethesda**

**Ffôn: 600953**

**lsturrs@googlemail.com**

## Malinda Hayward
## (Gwniadwraig)
**Awel Deg**
**Penygroes, Tregarth.**

**Am unrhyw waith gwnïo**
**- trwsio, altro ac ati -**

**Ffoniwch**
**01248 601164**

## JOHN ROBERTS



**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**

**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

# C.L. JONES
**Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu**

| | |
|---|---|
| Bethesda | 01248 600045 |
| Caernarfon | 01286 676070 |
| Llangefni | 01248 751677 |

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

| | |
|---|---|
| Mynytho | 01758 730768 |
| LLanrwst | 01492 640794 |
| Siop yn Llanrwst | 01492 640794 |

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

## Ysgol Llandegai

**Cyngerdd Nadolig**
Cawsom noson i'w chofio yn Neuadd Ogwen ychydig cyn y Nadolig. Sêr y noson oedd y disgyblion wrth gwrs, yn perfformio drwy gyfrwng llefaru, chwythu offerynnau a chanu. Cawsom gwmni Dylan Cernyw, Esyllt Tudur ac Elin Angharad, ac 'roedd y disgyblion a'r rhieni yn rhyfeddu at eu doniau cerddorol. Diolch i staff Neuadd Ogwen am eu croeso, ac i bawb a fu o gymorth i greu noson arbennig iawn.

**Naws y Nadolig**
Diolch i ddisgyblion, aelodau o staff a llywodraethwyr yr ysgol am gyfrannu i wasanaeth yn Eglwys Tegai- Naws y Nadolig - ar brynhawn olaf y tymor. Amser i gofio gwir ystyr y Nadolig yng nghwmni'r Parchedig John Matthews.

**Tymor Newydd**
Mae bellach yn ddechrau blwyddyn newydd ac mae pob dosbarth yn gweithio ar brosiectau a themâu newydd sbon.
Croeso'n ôl i'n gwirfoddolwyr darllen ffyddlon, a diolch i chi am roi eich amser bob wythnos.

**Cynhadledd Siarter Iaith**
'Roeddem oll yn hynod o falch o Mr Elfed Morgan Morris ein Prifathro, a gafodd wahoddiad i annerch ac i arwain gweithdai yn ystod cynhadledd y Siarter Iaith yn Llanrwst yn ddiweddar. Daeth y cyfryngau i'r ysgol i ffilmio'r gemau buarth sydd ar waith bob egwyl, a chafodd criw bychan fynd draw i'r gynhadledd i berfformio 'rap' y Siarter gyda disgyblion Ysgolion Tregarth a Bodfeurig.

'Roedd pawb wedi cael diwrnod i'w gofio yn wir. Braf oedd cael cydweithio gydag ysgolion cyfagos, gan fod hyn yn datblygu'r elfen o gymdeithasu y tu allan i furiau'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Wythnos Cŵl Cymru**
Byddwn yn dathlu Wythnos Cŵl Cymru yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth unwaith yn rhagor.
Byddwn yn cerdded o'r ysgol am dro i bentref Talybont yn ein gwisgoedd coch, gwyn a gwyrdd, yn chwifio baneri Cymru, ar Fawrth y cyntaf. Cewch ddarllen am weithgareddau'r wythnos gyfan yn y rhifyn nesaf!!

## Ysgol Penybryn

**Cyngerdd Nadolig**
Cafwyd sioe Nadolig lwyddiannus dros ben ar Ragfyr 17eg yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Cafwyd hanes Sara a Mari a'u criw camerau a sain wrth iddynt drïo bod y cyntaf i ddarlledu stori genedigaeth Iesu Grist i weddill i byd. 'Roedd pawb yn wych a chafwyd ymateb arbennig o dda gan y gynulleidfa.

**Presenoldeb 100%!**
Dyma holl blant yr ysgol sydd wedi cael tymor presenoldeb 100%! I'w llongyfarch, maent wedi cael tystysgrif ac anrheg Nadolig. Da iawn bob un ohonoch a chofiwch barhau gyda'r presenoldeb gwych am weddill y flwyddyn.



**Techniquest**
Ar Ionawr 13eg, cafodd blwyddyn 5 a 6 sesiynau buddiol iawn gyda Gwilym Jones o Techniquest. Gwyddoniaeth oedd pwnc y sesiynau a bu'r plant yn dysgu am y planedau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y blaned Mawrth. Bu'r plant yn brysur yn cynllunio a chreu teclyn a fyddai'n gallu glanio'n ddiogel ar y blaned. Diolch o galon Gwilym am ddod atom, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu ar gyfer y sesiynau Ditectif Mathemateg ym mis Chwefror.



**Digwyddiad Mentergarwch Nadoligaidd**
Ar b'nawn Iau, Rhagfyr 10fed, cynhaliwyd p'nawn mentergarwch Nadoligaidd hynod lwyddiannus. Cyn y p'nawn, bu'r plant yn cynllunio, paratoi a phrisio'r cynnyrch Nadoligaidd. Fel y gwelwch o'r llun uchod roedd llawer o gynnyrch, a 'does ryfedd ein bod wedi gwneud elw anhygoel o £432.05! Diolch o galon i bawb a gefnogodd y digwyddiad.

**Hwb+**
Derbyniodd pob dosbarth hyfforddiant Hwb+ ar Ionawr 25ain a 26ain. 'Roedd yn ddeuddydd buddiol dros ben, gyda'r staff a phlant yn elwa'n fawr o'r arweiniad. Edrychwn ymlaen at wneud defnydd cyson o Hwb+ o hyn ymlaen.

**Sioe Tag**
Aeth plant blwyddyn 5 a 6 i weld Sioe Tag yng Nghanolfan Denis, Caernarfon, a drefnwyd ar y cyd gan Yr Urdd, S4C a'r Siarter Iaith. Cawsant lawer o hwyl gydag Aled, Mari, Anni Llŷn (Bardd Plant Cymru) a DJ Sal. Bu Annest, Katie a Dion yn ddigon lwcus i gael eu dewis i fynd I ben y llwyfan i gymryd rhan mewn cystadlaethau ac ennill gwobrau. Braf oedd gweld cymaint o blant yn dod at ei gilydd i ddathlu'r iaith Gymraeg ac yn mwynhau ei defnyddio.

**Aml-chwaraeon**
Daeth cynrychiolydd o'r Urdd i roi sesiwn blasu aml-chwaraeon i bob dosbarth. Bu'r plant yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau hwyliog a oedd yn hybu ffitrwydd, ac yn rhoi blas i'r plant o'r gweithgareddau mae'r Urdd yn eu cynnig. Cafwyd ymateb cadarnhaol gyda llawer o'r plant yn dweud eu bod am fynychu'r sesiynau lleol.

**Nofio**
Llongyfarchiadau gwresog i Gethin Roberts, blwyddyn 4, ar gyrraedd y rownd derfynol, a dod yn seithfed, yng Ngala Nofio'r Urdd yng Nghaerdydd. Da iawn ti, Gethin, - 'rydym yn hynod o falch ohonot.

## Ysgol Rhiwlas

**Cinio Nadolig**
Diolch yn fawr iawn i Anti Shan am y cinio Nadolig blasus a gawsom yn yr ysgol amser cinio ddydd Mercher, Rhagfyr 2. 'Roedd pawb wedi bwyta llond eu boliau ac yn teimlo'n ddigon cysglyd yn y prynhawn!

**Ymweliad â Thŷ Bwyta Indiaidd Meghna**
Cafodd plant CS gyfle i flasu amrywiaeth o fwydydd Indiaidd yn ystod eu hymweliad â'r tŷ bwyta yn ddiweddar. Atgyfnerthu eu gwaith thematig oedd pwrpas yr ymweliad. 'Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

**Pantomeim**
Brynhawn ddydd Mercher, Rhagfyr 9, cafodd disgyblion CA2 fynd i Galeri, Caernarfon i weld perfformiad pantomeim. Cafwyd amser hwyliog a digon o chwerthin iach.

**Sioeau Nadolig**
Cafwyd perfformiadau gwych gan ddisgyblion CS, a gyflwynodd draddodiadau'r Nadolig ar draws y byd, a disgyblion CA 2, a gyflwynodd stori Scrooge. 'Roedd neuadd yr ysgol yn orlawn ar gyfer perfformiad prynhawn a nos Lun, Rhagfyr 14 yn ogystal ag ar gyfer y perfformiad nos Fawrth, Rhagfyr 15. Gwaith ardderchog blantos - 'rydych i gyd wedi gweithio'n galed iawn. Da iawn chi.

# Ysgol Llanllechid

**Sioeau Nadolig**
Cafwyd pedair sioe Nadolig i gyd:
Un gan y Dosbarth Meithrin a`r Cylch Meithrin o dan arweiniad Ms Evans ac Anti Debbie`r Cylch. 'Roedd y plant bach hyn yn fendigedig ac yn portreadu drama'r Geni yn hyfryd. Da iawn chi am ddysgu cymaint o ganeuon ac am berfformio mor dda o flaen eich rhieni.

Cafwyd sioe llawn hwyl gan y dosbarth Derbyn, a daethom wyneb yn wyneb â chymeriadau amrywiol (lluniau ar y dde) , e.e. y pryfaid cop, tylluanod, llygod, ystlumod, sêr, llwynogod, a Siôn Corn, wrth gwrs!

Cafwyd sioe wreiddiol arall gan Flynyddoedd 1 a 2: A wyddech chi fod Siôn Corn yn sownd ar y Weiren Wib a Ceridwen yn casglu diarhebion i`w rhoi yn anrheg iddo? A wyddech chi fod y Llipryn Llwyd a Rodni yn chwilio am waith i dalu am y Nadolig?! Sioe Nadolig wreiddiol, a`r neuadd yn llawn hwyl a chwerthin.

Yn Ysgol Dyffryn Ogwen y llwyfanwyd sioe`r Adran Iau, a daeth cynulleidfa luosog ynghyd i wrando ar yr holl berfformiadau. 'Pedair Chwedl a Baban' oedd y teitl a chafwyd gwledd! Noson gampus a phawb yn canmol!

**Priodas a Phrofedigaeth**
Roedd digwyddiadau mis Rhagfyr yn nheulu Cynan yn dorcalonnus a dirdynnol. Ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 12fed, priododd mam a tad Cynan, sef Tracy a Geraint Jones, yn ward Alaw, ond, cwta ddau ddiwrnod yn ddiweddarach, ffarweliodd Geraint â'r fuchedd hon. Daeth cynulleidfa gref ynghyd i'r gwasanaeth angladdol yn yr amlosgfa ym Mangor a thraddodwyd teyrnged rymus i Geraint gan ei frawd, Lesley. Cydymdeimlwn o waelod calon gyda Cynan, Tracy Jones, Valerie ac Islwyn Jones, Lesley a Gethin Jones, Dafydd a Gillian Griffith, a'r teulu oll yn eu colled a'u galar o golli gŵr, tad, mab a chyfaill mor arbennig.

**Cydymdeimlo â Chyn Athrawes**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Eirian Jones, Jenifer, Alison a`u teuluoedd yn eu profedigaeth lem o golli gŵr, tad a thaid arbennig iawn, sef y diweddar Dr Robert Jones - gŵr amryddawn, yng ngwir ystyr y gair. Bu`n fraint cael gwrando ar ei ferched yn talu teyrnged i'w tad yn ystod y gwasanaeth angladdol yng nghapel Berea Newydd ym Mangor. 'Roedd ganddo ddiddordebau lu, ac 'roedd meddwl am eraill ar frig ei agenda. Anfonwn ein cofion cynnes atoch oddi wrthym i gyd fel ysgol Eirian. Yn sicr, byddwch yn ein meddyliau yn ystod yr wythnosau a`r misoedd sydd i ddod.





**Cydymdeimlo ag un o'n Llywodraethwyr**
Anfonwn ein cofion a`n cydymdeimlad at Mr a Mrs Godfrey Northam; bu farw chwaer Mr Northam yn ddiweddar.

*parhad ar y dudalen nesaf...*

## Chwilair Chwaraeon

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | P | H | E | S | E | I | C | L | O | R | I | M | G | V | H | M | D |
| W | H | U | E | H | Z | M | X | V | A | D | D | Y | N | A | P | A | U | Q | U |
| S | A | O | L | F | O | R | P | Y | Q | Z | G | G | R | H | C | U | M | W | N |
| O | T | Y | D | R | I | C | A | N | S | Z | U | B | T | F | D | X | U | P | W |
| R | H | H | R | C | Q | H | I | W | O | E | H | I | O | Y | E | E | G | E | O |
| M | L | H | O | E | P | T | T | I | C | F | B | B | C | U | U | J | P | L | T |
| M | E | I | E | V | V | D | C | B | A | B | I | F | R | F | O | G | J | V | I |
| I | T | R | D | R | X | I | M | H | T | T | O | O | S | K | O | P | W | R | C |
| M | A | K | C | B | O | R | C | X | V | R | Y | H | A | S | T | M | D | R | E |
| F | U | Y | J | D | Z | H | B | C | W | O | S | F | C | R | A | I | E | X | N |
| I | L | X | J | J | M | B | W | T | E | X | Y | M | D | X | K | F | G | U | P |
| C | Q | Y | O | I | L | F | R | E | Z | D | Q | R | D | O | C | T | S | D | G |
| W | O | S | L | Z | E | B | E | A | D | J | K | E | J | C | L | N | A | L | R |
| V | L | O | O | G | J | P | W | E | P | G | C | S | O | W | J | J | F | Q | U |
| L | S | F | I | S | V | T | L | X | E | I | U | G | H | S | L | Z | L | E | A |
| F | E | X | F | I | W | C | T | Z | R | H | K | V | A | G | B | N | E | K | A |
| D | R | S | F | I | K | O | G | C | G | O | L | F | F | D | H | B | P | S | I |
| U | R | O | A | X | A | G | X | R | A | E | E | K | K | D | A | N | T | O | G |
| W | B | M | P | B | J | R | F | U | N | K | B | Z | E | B | B | C | U | Y | C |

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg gwahanol math o ddisgybliaeth mewn

CHWARAEON

Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).
**Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn 3 Mawrth.**
Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

'Roedd camgymeriad gyda'r dyddiad yn rhifyn Rhagfyr o'r chwilair, ac felly 'roeddwn wedi anfon y chwilair ar gyfer Ionawr gydag atebion Rhagfyr i'r wasg cyn i Rosemary Williams a Barbara Owen daro eu hatebion i mewn i mi. Er gwybodaeth, 'roedd eich atebion yn gywir ferched.
Yn y chwilair y mis yma mae deuddeg peth yn ymwneud a chwaraeon i'w darganfod, – byddwch yn ofalus gydag un ohonynt gan fod yr enw yn hwy na'i olwg cyntaf.

Dyma atebion Ionawr:- Aberogwan; Bronydd; Cae Evan Gymro; Cae Mawr; Gerlan; Glan yr Afon; Maes y Penbwl; Pencoed; Pentre; Sychnant; Tyddyn Ceiliog; Tyddyn Isaf. Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Mair Jones, Fford Bangor; Gareth a Sara Oliver, Tregarth; Rosemary Williams, Tregarth; Wendy Eccles, Rachub; Doris Shaw, Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Elizabeth Buckley, Tregarth; Myfanwy Jones, Gaerwen, Ynys Môn.

Enillydd Ionawr oedd **Elfed Bullock**, 8 Maes y Garnedd, Bethesda

**Plas Tan y Bwlch a Phortmeirion**
Cafodd disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ddiwrnod yn dysgu am ddau ffigwr adnabyddus yn hanes Cymru – sef Clough Williams Ellis a Hedd Wyn. Ym Mhortmeirion cafodd y plant daith o amgylch y pentref unigryw hwn, gan ddysgu am hoffterau' pensaer Clough Williams Ellis a'i freuddwyd o greu lleoliad yn cyfuno gwahanol arddulliau a thraddodiadau. Ym Mhlas Tan y Bwlch cafodd y disgyblion ddysgu am hanes bardd y gadair ddu. Ar hyn o bryd mae buddsoddi mawr yn digwydd yn yr Ysgwrn, a bydd yr Ysgwrn yn ail agor i`r cyhoedd ar ei newydd wedd y flwyddyn nesaf. Cafwyd cyfle i astudio arteffatctau o'r cartref, ynghyd â gweld copi maint llawn o'r gadair, a gwerthfawrogi gwaith ei chynllunydd, a hanai o wlad Belg.

**Archifdy**
Diolch unwaith eto i ffrind da yr ysgol, sef Gwenda o'r archifdy, am ddod i ddangos arteffactau o'r Ail Ryfel Byd, gan gynnwys mygydau nwy, llyfrau dogni, helmedau a llawer mwy. Mae'r plant wedi ymgolli yn yr hanes erchyll hwn, sy`n rhan o`n hanes,ac 'roedd eu brwdfrydedd yn amlwg wrth wrando ar y cwestiynau doeth a ofynwyd. Gwelsom lythyr diddorol a ysgrifenwyd am y bom a ddisgynnodd ar Gaellwyngrydd.

**Dinas Dinlle a Chastell Caernarfon**
Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ar daith i fwynhau gweithdy yn amgueddfa'r Royal Welch Fusiliers yng nghastell Caernarfon, lle bu Jerry'n eu tywys trwy agweddau o'r Ail Ryfel Byd, ynghyd â dangos y gwahanol arteffactau. Yn ogystal, cawsant gyfle i oryymdeithio fel milwyr y gatrawd, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r arweinydd are eu hunion! Yna, maes awyr Dinas Dinlle oedd y gyrchfan, a chafwyd amser da yn yr amgueddfa awyrennau tra`n astudio rhai o'r awyrennau fu'n hedfan yn ystod y rhyfel, a gweld mwy o arteffactau. 'Roedd y disgyblion wedi eu cyfareddu yn eistedd wrth y llyw ac yn cael cyfle i deimlo fel peilotiaid go iawn! Diolch i Dave am y croeso, ac am yr anrheg arbennig o fodel awyren wrth i ni ymadael. Gwych!

**Newyddion 9 a Radio Cymru**
Welsoch chi ddosbarth Mr Huw Edward Jones ar Newyddion 9 yn ddiweddar? Fe wyddoch fod Ysgol Llanllechid yn ymwneud â`r rhaglen gwrth fwlio o'r Ffindir sef KIVA ers pedair blynedd bellach ac, yn sgil hyn, wedi derbyn sylw rhyngwladol. Daeth ein gwaith da i glustiau rhaglen Newyddion 9 ar S4C a Radio Cymru a daethant draw i arsylwi ar wers yn nosbarth Mr Jones. 'Roedd yn hyfryd gweld y plant yn cymryd rhan mor frwdfrydig a naturiol, gan siarad yn ddoeth gyda'r gohebydd newyddion, Dafydd Gwyn. Da iawn chi blantos!

**Cyngor Ysgol**
Mae'r Cyngor Ysgol yn parhau i weithio yn frwdfrydig y tymor hwn. Eisoes maent wedi trefnu disgo Santes Dwynwen a chystadleuaeth creu poster ar gyfer annog plant i yfed dŵr yn y dosbarth a llawer mwy.

**Siarter Iaith a Chadair i Erin!**
Aeth disgyblion blwyddyn 6 i Ganolfan Tennis Arfon i fwynhau prynhawn yng nghwmni cyflwynwyr sioe Tag S4C. Ar ôl canu nifer o ganeuon, cafwyd cyfle i ymuno mewn gemau, a chafwyd cystadlaethau. 'Roeddem yn hynod falch o Erin Robertson! O'r holl blant oedd yno, Erin enillodd y gystadleuaeth am gwblhau limerig. Cafodd ei chadeirio o flaen yr holl blant mewn seremoni arbennig!

**Wrecsam – Celtiaid Bl 3**
Cafodd dosbarth Mrs Bethan Jones ddiwrnod arbennig ym mhentref y Celtiaid yn Wrecsam yr wythnos ddiwethaf. Ar ôl cyfarfod Angharad i gael hanes Culhwch ac Olwen, gwisgwyd fel Celtiaid er mwyn ymuno â llwyth Angharad. Tiwnig a siôl oedd y dillad, ac 'roedd yn amhosib adnabod y plantos gan fod eu wynebau wedi'u peintio`n las! 'Roedd golwg ffyrnig a brawychus ar bawb; pob un yn barod i ddychryn y gelyn! Ond, 'doedd dim cyfle i ymlacio, gan fod rhaid gweithio fel lladd nadroedd drwy'r dydd! Beth oedd ar y gweill? Gwehyddu, dylunio tarian, gwneud potiau clai, adeiladu tŷ crwm gyda dwb, cyn ymarfer taflu gwaywffon at darged yn barod i ymladd y Rhufeiniaid rhyfelgar! Cafwyd diwrnod prysur, hwyliog ac arbennig iawn, gyda llawer o Geltiaid blinedig iawn yn cyrraedd yn ôl i Rachub.
"Mi wnes i fwynhau adeiladu wal i'r tŷ crwm gyda dwb, sef dŵr, tail, gwair a chlai." Elan Jones
"'Roeddwn i yn meddwl fod y diwrnod yn ardderchog, y gorau, oherwydd 'rydw i wedi dysgu sut i wehyddu dillad Celtaidd" Chenai.

**Santes Dwynwen**
'Roedd hwn yn ddiwrnod arbennig, - pawb yn gwisgo coch neu binc, ac yn cael mwynhau disgo hwyliog yn y neuadd! A stori Santes Dwynwen yn werth ei chlywed! Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu.

**Gwasanaeth Tân**
Daeth swyddog o'r Gwasnaeth Tân draw i sgwrsio am ddiogelwch yn y cartref, ac atgoffa'r plant am beryglon sy`n llechu yn ein cartrefi. Felly, cofiwch ddiffodd eich teclynnau trydanol cyn mynd i gysgu!

***Drwg* Neuadd Ogwen**
Cafodd Blynyddoedd 1 a 2 fynd i Neuadd Ogwen i wylio sioe arbennig gan Gwmni Bara Caws, sef 'Drwg'. 'Roedd yn gyflwyniad llawn hiwmor am Rhita Gawr, ac' roedd y cyfan yn hynod weledol , gyda set hyfryd, pypedau doniol a stori dda! 'Roedd y plant i gyd wrth eu boddau'n ymuno yn yr hwyl drwy ddawnsio a chanu.

**Diwrnod Pyjamas Meithrin**
Beth sy'n digwydd yn y Dosbarth Meithrin? Mae pawb wedi dod i'r ysgol yn eu pyjamas! Dyna hwyl ydi gwneud thema 'Pan af i gysgu'!

**Arwyr**
Mae Dosbarth Mrs Marian Jones yn sôn am arwyr ac archarwyr yn ystod yr hanner tymor hwn. Un diwrnod gwisgodd pawb fel arwyr a chael hwyl yn creu sioeau ar y cyfrifiadur! Ond wnewch chi byth goelio pwy ddaeth i`r dosbarth yr wythnos ddiwethaf! Owain Glyndwr ei hun gyda`i faner a`i gleddyf. Atebodd Owain Glyndwr holl gwestiynau`r disgyblion, a phawb yn rhyfeddu at ei hanes. Dysgwyd hefyd am gerdd Iolo Goch, sydd yn canu clodydd Sycharth a`r gerddi o amgylch:

> Popty llawn poptu i'r llys,
> Perllan, gwinllan ger gwenllys;
> Melin deg ar ddifreg ddŵr,
> A'i glomendy gloyw maendwr;
> Pysgodlyn, cudduglyn cau,
> A fo rhaid i fwrw rhwydau;
> Amlaf lle, nid er ymliw,
> Penhwyaid a gwyniaid gwiw,
> A'i dir bwrdd a'i adar byw,
> Peunod, crehyrod hoywryw;
> Dolydd glân gwyran a gwair,
> Ydau mewn caeau cywair,
> Parc cwning ein pôr cenedl,
> Erydr a meirch hydr, mawr chwedl;
> Gerllaw'r llys, gorlliwio'r llall,
> Y pawr ceirw mewn parc arall;
> Ei gaith a wna pob gwaith gwiw,
> Cyfreidiau cyfar ydiw,
> Dwyn blaendrwyth cwrw Amwythig,
> Gwirodau bragodau brig,
> Pob llyn, bara gwyn a gwin,
> A'i gig a'i dân i'w gegin.

**Tîm Peldroed Cymru**

Oherwydd bod tîm peldroed Cymru wedi cael llwyddiant ysgubol yn ddiweddar, mae dosbarth Mrs Marian Jones wedi bod yn astudio data am ein harwyr cenedlaethol. A chwarae teg i Mr Meilir Owen, daeth draw i`r dosbarth i sgwrsio gyda'r plant am 'gapiau' cenedlaethol, ac am y modd mae peldroedwyr yn ymarfer. Yna, cafwyd sesiwn sgiliau ardderchog ganddo, ac' roedd Ina, ei wyres, wedi gwirioni gweld Taid yn y dosbarth! Diolch yn fawr Meilir! Ffordd arbennig o dda o dreulio ein diwrnod Ysgol Iach.

**Cyngerdd Santes Dwynwen**
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ein cyngerdd Santes Dwynen. Cafwyd pleser dibendraw yn gwrando ar ein disgyblion sy`n cael gwersi offerynnol yn yr ysgol yn perfformio; ein côr a rhai o ddisgyblion bl 2. Diolch i`n cerddorion: Mrs Sioned Webb Jones a Mr Huw Edward Jones am eu hymdrechion, ac i bawb a ddaeth draw i`n cefnogi. Diolch hefyd i Ms Leanne, Anti Gillian, ac Anti Carol am eu cymorth, ac am y bara brith a`r bisgedi siâp calon hyfryd!

## Collwyd yn y Rhyfel Mawr
**Ganrif i'r mis hwn**
ER COF Am
R. JERVIS
Milwr Cyffredin 17869 13th Bn., Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
A fu farw 20 – 1 – 1916 Yn 20 oed
Mab Thomas a Eliza Jervis, Tŷ'r Ysgol, Gerlan.
Myfyriwr ym Mhrifysgol Bangor
(Diolch i Andre Lomozik am eu hanfon i'r Llais)

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer

## Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

**J. TEMPLE MORRIS A'I FAB**

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
**07770 900631**
**01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com

**CHRIS GRIFFITHS**

Trwsio ffenestri upvc, drysau, doeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 389 neu 07813 455053

**SAMARIAID**

Mae
**Llinell Gymraeg**

**0300 123 3011**

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

BYSUS
**D. R. OWENS**
RHIWLAS

**01248 361044 a 07771 634196**



Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - Tripiau, Priodasau, Partïon ac ati.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

Sefydlwyd 1997 Perchennog: Derfel Owens

**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol.
Gwasanaeth dwyieithog, personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:
Llangefni (01248) 723106
Amlwch (01407) 831777
Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616
Pwllheli (01758) 703000

## Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
*Blodau ar gyfer pob achlysur*

**Priodasau, Angladdau ayyb**
**Ffres a Sidan**

*Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'*

**Modurdy Central**

**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎ 601031**

**BARBWR OGWEN**



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

**A.G.L.**
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Sefydlwyd 1969

**m.hughes a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600833
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith fflat a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

## MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
**A. Ll. Williams**

**Stryd Fawr, Bethesda**
**✦ PROFION M.O.T. ✦**

**GWASANAETH ✦ ATGYWEIRIO**
**✦ TEIARS A BATRIS ✦**
**GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068

**WU SHU KWAN**

**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

**Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30**

**Un sesiwn am ddim os dewch â'r hysbyseb hwn hefo chi**

✦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ✦

**Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416 neu galwch heibio'r dosbarth**

**Cerbydau Penrhyn**

**CABIAU A BYSIAU MINI**
**Ffôn: (01248) 600072**

**Meysydd awyr ✦ Porthladdoedd**
**Contractau**

**Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru**

Contractwyr Trydanol

**Jones & Whitehead Cyf**

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk


ECA CHAS

SGAFFALDIAU Cyf.
JR SCAFFOLDING Ltd.

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

**Y BWTHYN TE**
**pen y ceunant isaf**
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS




PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS) YN YSTOD Y 18fed. GANRIF
CEWCH GROESO ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFEYDD GWYCH DROS LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydiau o gwbwl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN + YN ADDAS I'R ANABL
Orlel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk steven@ceunant.co.uk

**OWEN'S TREGARTH**
**Cludiant Preifat a Bws Mini**



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
01248 602260
07761619475



www.owenswales.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE


## SESIYNAU SIARAD I DDYSGWYR

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's.

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar **01248 602131**


Ogwen
Adferiad Corfforol

Eli Lichtenstein



**Chwilio am ofod swyddfa/siop ar Stryd Fawr Bethesda?**
**Gofod Siop, Swyddfa neu Weithdy yn awr ar gael.**

**Ystafell gyfarfod Swyddfa Ogwen**
**Ar gael i'w llogi yn awr telerau cymunedol ffafriol.**

Ymholiadau - 01248 602131
partneriaeth@ogwen.org

Hysbysebu yn y Llais neu i dynnu sylw at eich gweithgareddau yn yr ardal, gan gynnwys Dyddiadur y Dyffryn, cysylltwch â'r Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA
☎ 600853



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**alunffred.jones@cymru.gov.uk**



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**

# Ysgol Dyffryn Ogwen



**Te prynhawn Nadolig 2015**
Eleni eto bu'r te prynhawn yn llwyddiant. Croesawyd dros 90 o'r henoed lleol i'r ysgol am brynhawn o luniaeth ysgafn ac adloniant. 'Roedd y lluniaeth wedi'i baratoi gan grŵp Lletygarwch blwyddyn 10, a bydd eu perfformiad yn cyfrif tuag at eu cymhwyster lefel 2 BTEC. Diolch o galon i fusnesau lleol am gyfrannu tuag at y bwyd a'r raffl. Heb eu cyfraniad hwy ni fuasem wedi gallu cynnal y te Nadolig.

**Côr Ysgol**
Bu côr yr ysgol yn brysur yn cyfrannu at ddathliadau'r Nadolig. Gwahoddwyd aelodau o'r gymuned i fwynhau te prynhawn yn yr ysgol ar ddydd Iau, Rhagfyr 17. Cyflwynodd y côr ddwy gân allan o'r cyfansoddiad 'Gair yn Gnawd'. Yn ogystal canodd Math unawd boblogaidd Ryan Davies sef 'Nadolig, pwy a ŵyr?' a chyflwynodd grŵp o gantorion (Ceri, Mari, Megan ac Izac) gân swynol 'Mae na Faban Bach'. Ymunodd y côr hefyd gyda'r gynulleidfa i gyd-ganu amrywiol garolau. Yn ogystal â'r côr, fe gyflwynodd grŵp pres yr ysgol garolau hefyd.

Ar nos Sul, Rhagfyr 20fed cafodd yr ysgol wahoddiad i ymuno yn nathliadau'r gymuned yn y gwasanaeth carolau yng Nghapel Jerusalem. Cyflwynodd y côr bedair cân allan o 'Gair yn Gnawd' gyda chyfraniadau unawdol gan Elin Cain, Cadi Rhys, Anna, Elen Wyn, Buddug ac Efa. Daeth y gwasanaeth i ben yn fawreddog gyda'r corau yn cyd-ganu 'Haleliwia' o 'Teilwng yw'r Oen' gyda Chôr y Penrhyn a Chôr y Dyffryn. 'Roedd hyn yn brofiad gwefreiddiol i'r disgyblion.

**Pantomeim**
Bu holl ddisgyblion blwyddyn 7 yn gweld perfformiad o'r pantomeim 'Snow White and the Seven Dwarfs' yn Llandudno yn ystod yr wythnos olaf cyn y Nadolig. Yr oedd yn berfformiad lliwgar, bywiog a swnllyd, yn ôl traddodiad y pantomeim Nadoligaidd, ac 'roedd y disgyblion a'r aelodau o staff wedi cael bore difyr iawn. Diolch i'r adran Saesneg am drefnu.

**Taith Manceinion**
Ar Ragfyr 16eg bu nifer o ddisgyblion blynyddoedd 8, 9 a 10 ar daith i weld sioe gerdd 'The Bodyguard' yn y Palace Theatre ym Manceinion. 'Roedd y sioe'n wefreiddiol a chafodd y disgyblion brofiad gwych.

**Gwobrau Chwaraeon BBC Cymru**
Llongyfarchiadau mawr i Elan Môn Gilford o'r 6ed Dosbarth am ennill Gwobr Gwirfoddolwr Ifanc y flwyddyn yng Ngwobrau Chwaraeon BBC Cymru. Mae hyn yn dipyn o glod iddi, ac yn gwbl haeddiannol, gan ei bod yn treulio oriau yn hyfforddi plant a phobl ifanc mewn gwahanol gampau. Cafodd Elan noson i'w chofio yng Nghaerdydd gyda mawrion y byd chwaraeon yng Nghymru – a chael tynnu ei llun gyda sawl un!

**Diwrnod Cofio'r Holocaust – Ionawr 27**
Cynhaliwyd gwasanaeth i'r ysgol gyfan i gofio am y 6 miliwn o bobl a gollodd eu bywydau yn yr Holocaust. Ionawr 27ain 1945 oedd y diwrnod y cyrhaeddodd milwyr Rwsia wersyll Auschwitz, a chael sioc enfawr wrth weld yr hyn oedd yn eu hwynebu. Erbyn hyn, mae Ionawr 27ain yn ddiwrnod i gofio am yr erchyllterau a ddigwyddodd yn Auschwitz a gwersylloedd tebyg, ac yn arbennig i gofio am y




Elan gydag Aled Sion Davies, enillydd medalau aur ac efydd gemau Paralympic Llundain 2012

miliynau o Iddewon a gollodd eu bywydau. Bu Alys Haf o flwyddyn 13 hefyd yn cynrychioli'r ysgol mewn gwasanaeth cyhoeddus a drefnwyd gan Gyngor Gwynedd ar Ionawr 27ain i gofio'r Holocaust. Roedd yn darllen cerdd 'Wnai Fyth Anghofio' gan Elie Wiesel, un o'r Iddewon a oroesodd erchyllterau Auschwitz.

**Banc Bwyd**
Daeth Maggie Azarpey a Gwyn Williams i roi cyflwyniad i ddisgyblion y chweched dosbarth am y Banc Bwyd. Mae Banc Bwyd Caernarfon yn darparu bwyd brys i bobl sy'n cael trafferth bwydo eu teuluoedd yn ardal Arfon.



Yn dilyn y cyflwyniad fe ysbrydolwyd Manon, Math a Rhiannon, a phenderfynwyd mynd i wirfoddoli i Tesco Bangor. Yno fe wnaethant helpu i rannu pamffledi ac i gasglu'r bwyd. Yn yr wythnosau canlynol trefnwyd i roi basged yng nghyntedd yr ysgol am bythefnos er mwyn casglu bwyd ar gyfer y Nadolig. Drwy roddion disgyblion a staff yr ysgol llwyddwyd i gasglu bwyd oedd yn mwy na llenwi'r fasged. Yn ogystal fe aeth rhai o ddisgyblion y chweched i Asda er mwyn prynu mwy o fwyd gyda'r rhoddion ariannol.

*Rhiannon Llwyd*

**Siaradwyr Gwadd**
Faint mae'n gostio i fyw yn annibynnol yn wythnosol? Dyna gwestiwn agoriadol sesiwn blwyddyn 13 gyda Melanie a Kim o fudiad GISDA. 'Roedd y cyflwyniad yn rhan o'n hastudiaeth ar gyfer yr uned Heriau Cymdeithasol Lefel A y BAC. 'Roedd yn sesiwn ddiddorol, yn peri i ni feddwl mwy am atebion i gwestiynau moesol, megis 'Beth yw digartrefedd?' 'Beth sy'n achosi digartrefedd?' a 'Lle i fynd os yn ddigartref?' Mae GISDA yn rhoi cymorth i bobl ifanc, yn benodol rhwng 16 a 25 oed, ac yn eu paratoi at fyw yn annibynnol

*parhad ar y dudalen nesaf...*



Iago Davies yn dyrannu macrell yn y labordy

drwy ddysgu sgiliau hanfodol megis coginio, sut i gael swyddi ayyb. Yn ogystal â Gisda, cawsom ni fel 6ed dosbarth gyflwyniad ar roi gwaed gan Dylan Jones o'r Gwasanaeth Gwaed Cenedlaethol. 'Roedd yn gyflwyniad diddorol, ac yn gwneud i ni feddwl am bwysigrwydd rhoi gwaed. Clywsom am achosion lle 'roedd rhoi gwaed wedi achub bywydau pobl, ac ar ôl dysgu bod ysbytai angen 6 mil uned o waed yn ddyddiol, bu i nifer ohonom ni gofrestru i roi gwaed.

*Elin Cain ac Alys Haf*

**Diwrnod blasu - Biowyddorau**

Aeth myfyrwyr bioleg blwyddyn 12 ar ymweliad Diwrnod Blasu i Adran Fioleg Prifysgol Bangor ym mis Ionawr. Ffocws y diwrnod oedd dysgu am system resbiradu pysgod, drwy wrando ar ddarlith a thrwy wneud gwaith ymarferol yn y labordy. Dysgodd y myfyrwyr lawer am anatomeg pysgodyn drwy ddyrannu macrell. Gan mai'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol oedd wedi trefnu'r diwrnod, cafodd y myfyrwyr wybod am y cyfleoedd sydd i ddilyn modiwlau cyrsiau gradd yn y Gymraeg ac am yr ysgoloriaethau sydd ar gael i wneud hynny.

**Gweithdy Drama 'Chwalfa'**

Mae'r ddrama 'Chwalfa' ar ei ffordd i Pontio, a daeth yr actor Owen Arwyn o Theatr Genedlaethol Cymru i gynnal gweithdy drama gyda ni ym Mlwyddyn 10. Cychwynnodd y bore drwy gynhesu'r llais a'r corff, ac yna fe wnaethom weithgareddau yn ymwneud â chadw cyswllt llygad wrth actio. Yn yr ail hanner, cawsom dasg Cadair Goch, pan oedd angen i ni feddwl am enw, oedran ac ardal lle'r oedd ein cymeriad yn byw. Cafodd rhai ohonom gyfle i eistedd yn y Gadair Goch, a'r dosbarth ac Owen Arwyn yn gofyn cwestiynau i ni am ein cymeriadau. Daeth llu o gymeriadau amrywiol iawn i'r golwg, un wedi colli ei goes yn y fyddin, un arall gyda phroblem cyffuriau, asasin, mewnfudwr o Frasil, a merch ddiniwed anhapus. Ar ôl y gweithgareddau yma fe wnaethom weithgaredd byrfyfyrio oedd yn llawer o hwyl! 'Roedd yn hynod o ddiddorol gweld y stori yn datblygu o fod mewn meddygfa gyda dyn wedi torri ei goes i ddawnsiwr dynol hwla yn gwerthu saws 'piri piri' ac yn cael cytundeb record gan Simon Cowell a Louie Walsh. Diolch i Owen Arwyn am ein cyflwyno i'r rhyfeddodau, ac edrychwn ymlaen at ei weld yn perfformio yn 'Hogia Ni' gan Meic Povey yn Neuadd Ogwen ym mis Mawrth.

*Cadi Roberts, blwyddyn 10*

**'Dod â Siwan yn fyw'**

Fel rhan o'u cwrs Uwch Gyfrannol mae disgyblion blwyddyn 12 yn astudio'r ddrama radio 'Siwan' gan Saunders Lewis. Bu'r criw'n ffodus iawn i gael bod yn rhan o drafodaeth yng nghanolfan newydd sbon Pontio yn ystod mis Ionawr. Trefnwyd y sgwrs gan Brifysgol Bangor, ac 'roedd yn gyfle gwych i wrando ar actorion a dramodwyr yn trafod y ddrama. Roedd Maureen Rhys a Ffion Dafis ar y panel, ac fe soniodd y ddwy ohonyn nhw am eu profiadau nhw yn perfformio rhan Siwan. 'Roedd y dramodydd William Lewis a'r darlithydd Dr Manon Wyn Williams hefyd yn rhan o'r drafodaeth. Cafwyd prynhawn difyr iawn, - diolch i Brifysgol Bangor am drefnu.

**Cwis Radio Cymru**

Llongyfarchiadau mawr iawn i dîm yr ysgol ar gyrraedd rownd derfynol Cwis Pop C2 Radio Cymru – gan gystadlu yn erbyn ysgol leol arall, Ysgol Syr Hugh Owen. 'Roedd yn braf iawn curo tîm cryf ysgol Tryfan yn y rownd gyn-derfynol! Aelodau'r tîm yw Alys Haf, Elin Cain, Rhiannon Llwyd ac Iago Davies.

**Rygbi**

Llongyfarchiadau i'r timau rygbi dan 13 a dan 15 ar ennill gemau Cwpan Eryri 34-5 a 50-0 yn erbyn Ysgol Uwchradd Bodedern.

Llongyfarchiadau i Iago Davies ar gael ei ddewis i garfan dan 18 RGC, - bydd y gêm gyntaf yn erbyn y Gweilch!

**Nofio**

Llongyfarchiadau i Catherine Roberts ,blwyddyn 7, yn 7fed trwy Gymru mewn ras nofio Pili Pala. Hefyd y tîm ras gyfnewid yn 9fed allan o 16, - da iawn chi!

**Traws gwlad**

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol a oedd yn cystadlu yng nghystadleuaeth traws gwlad Arfon ar Ionawr 20fed. Bydd Esme Crowe a Beca Nia yn mynd ymlaen i gystadleuaeth Eryri, - pob lwc genod!

**Ar y Radio**

Bu Buddug Roberts, blwyddyn 11, yn sgwrsio ar y radio yn ddiweddar, ar y pwnc: 'Sut i Adolygu'. Gydag arholiadau TGAU ar y gorwel iddi hi a'i chyfoedion, 'roedd ganddi syniadau gwerthfawr, a gwreiddiol(!), i'w cynnig. Diolch, Buddug!

# Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar 26 Ionawr, gyda'r Cyng. Dafydd Meurig yn y gadair.

**Llifogydd**

Adroddodd y Cyng. Dafydd Owen am y llifogydd yn ardal Cyngor Cymuned Llandygái ar ddydd San Steffan a effeithiodd ar Ganolfan Tregarth. Diolchwyd i'r Cyng. Owen ac i Rhys Llwyd am eu gwaith yn clirio a glanhau'r Ganolfan. Adroddodd y Cyng. Dafydd Owen hefyd ei fod wedi bod ar ymweliad safle yn Nhanysgrafell gyda swyddogion Cyngor Gwynedd a Dŵr Cymru yn ceisio cael datrysiad i'r dŵr sy'n codi yn y ffordd ar adegau glaw trwm.
Adroddodd y Cyng. Dafydd Meurig am y llanast a fu yn Nhalybont ar ddydd San Steffan o ganlyniad i'r llifogydd, a sut y bu iddo berswadio Prif Weinidog Cymru i ymweld â'r ardal. Amser a ddengys os bydd Carwyn Jones yn cadw at ei air i gyllido Cynllun Lliniaru Llifogydd a fydd yn gwarchod Talybont a'r A55. Diolchwyd i Dafydd Meurig am ei waith diflino yn cynrychioli trigolion ei ward mewn amser hynod o anodd.
Dymunodd y Cyng. Ann Williams ddiolch o galon i holl swyddogion Cyngor Gwynedd a fu allan yn gweithio ym mhob tywydd yn ystod ac yn dilyn y llifogydd.

**Parcio**

Adroddodd y Cyng. Ann Williams sut y bu iddi gynnal cyfarfod efo swyddogion Cyngor Gwynedd beth amser yn ôl i drafod meysydd parcio Stryd Fawr Bethesda. Mae Gwynedd wedi cytuno i beidio a chodi tâl yn Pant Dreiniog, ac i gyfyngu'r oriau Talu ac Arddangos yn Cae Stâr, i rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn, 7 diwrnod yr wythnos. Hefyd, bydd y trefniant ble mae wyth bae yng ngwaelod Cae Stâr wedi ei neilltuo i rhai perchnogion siopau yn parhau. Bydd y drefn newydd yn dod i rym tua diwedd yr haf.

**Biniau Halen**

Adroddodd y Cyng. Paul Rowlinson bod Cyngor Cymuned Bethesda yn bwriadu cymryd cyfrifoldeb dros y gwasanaeth Biniau Halen, ac am edrych ar y posibilrwydd o gynnal gwasanaethau eraill os bydd y Cyngor Sir yn gorfod gwneud toriadau.
Penderfynwyd darparu ar gyfer hyn gyda chodiad presept o 6%.
Aelodau Newydd
Roedd y Cyng. Neville Hughes yn falch o gael adrodd bod y Gangen wedi derbyn dau Aelod newydd ers y cyfarfod diwethaf.

**Digwyddiadau**

1. Cyfarfod Blynyddol, Cefnfaes, 19/02/2016, ar agor i bawb am 1930. Alun Ffred Jones AC yw'r gŵr gwadd. Croeso i bawb.
2. Bore Coffi, Cefnfaes, 05/03/2016

# Chwaraeon

## Llwyddiant i Glwb Shukokai Cymru



Dyma lun o bawb a raddiodd o Glwb Shukokai Cymru ym Mhlas Francon Bethesda yn ystod mis Rhagfyr 2015.

## Wu Shu Kwan

### Llwyddiant i Brian

Wedi dros 10 mlynedd o hyfforddiant Wu Shu Kwan, (y cyfeirir ato yn aml fel "Kung Fu"), mae Brian Jones o Fethesda wedi ennill y gwregys du, sef y "black belt". Digwyddodd hyn yn Llundain ym mis Tachwedd drwy raddio gerbron y "Grand Master Mr. C.K. Chang".

Ymhlith y tasgau y bu raid iddo eu gwneud 'roedd ymladd 3 gwahanol wrthwynebydd, ac yna amddiffyn ei hunan yn erbyn 2 wrthwynebydd ar yr un pryd. Ar ddiwedd diwrnod caled bu raid iddo wedyn arddangos technegau torri, drwy ddyrnu a chwalu swp o deils toi, cicio dwy styllen oedd gyfuwch â'i ben, a hollti bricsen gydag ochr ei law! Dymuna Brian ddiolch i'w hyfforddwyr, Jake Fitzpatrick (black belt gradd 4) ac Elena Fitzpatrick (black belt gradd 3), yn ogystal â gweddill aelodau Wu Shu Kwan Tregarth a Bethesda, am eu harweiniad a'u cefnogaeth. Am ragor o wybodaeth ar sut i ymuno, ffoniwch Jake neu Elena ar 07769 584646, neu ewch i www.wushukwan.com/classes.

